Cyngor Sir Penfro
Plant ac Ysgolion

Derbyniadau I Ysgolion yn Sir Benfro

Gwybodaeth i Rieni



2020-2021

Gwasanaeth Derbyniadau I Ysgolion
www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-a-dysgu

Rhagair



Neges gan y
Cyfarwyddwr
Dros Blant ac Ysgolion

1 Medi 2019

Annwyl Riant neu Warcheidwad

Bwriad y llyfryn hwn yw eich cynorthwyo i wneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â pha ysgol y gall eich plentyn fynychu.

Er mwyn hwyluso eich penderfyniad, rydym yn argymell eich bod yn ymweld ag ysgolion lleol, yn darllen prosbectws yr ysgol ac yn edrych ar wefan Fy Ysgol Leol; https://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cy

Er bod y rhan fwyaf o geisiadau'n llwyddiannus, nid yw'n bosib i bob cais lwyddo.

Pwrpas y llyfryn hwn yw esbonio'r broses o wneud cais, a'r broses o apelio os nad ydych yn llwyddo i gael eich dewis cyntaf. Dylech nodi nad yw'r ffaith bod plentyn yn cael ei dderbyn i ysgol yn awgrymu bod cludiant i'r ysgol honno ac oddi yno yn cael ei ddarparu.

Dymunaf bob llwyddiant i'ch plentyn yn y dyfodol.

Kate-Evan Hughes
Cyfarwyddwr Dros Blant ac Ysgolion
Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir,
Hwlffordd,
Sir Benfro SA61 1TP

Ffôn (01437) 764551
Gwefan: www.sir-benfro.gov.uk/mynediad-i-ysgolion

Ceisiadau Ar-lein

Mae modd i rieni wneud cais ar gyfer mynediad i ysgol trwy ddefnyddio system ar-lein ar wefan y Cyngor Sir: www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-a-dysgu

Gellir ddod o hyd i copïau o'r llyfryn hwn trwy gysylltu a'r wasanaeth derbyniadau: www.sir-benfro.gov.uk/mynediad-i-ysgolion

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn Braille, print mwy, ar dâp sain neu mewn iaith arall ffoniwch Gyngor Sir Penfro ar (01437) 776613.

NODER:

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn berthnasol ac yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Adolygir y llyfryn hwn yn flynyddol ac mae'n disodli'r holl fersiynau eraill. Efallai y bydd rhaid addasu polisi, rheoleiddio, darpariaeth neu adnoddau ar gyfer, neu yn ystod, y flwyddyn academaidd 2020/21

Mynegai

Rhagair		1
Siarter Lleol		5
Cyfleoedd Cyfartal / Diogelu Data / Hysbysiad Prosesu Teg Derbyniadau		6
Rhan 1 - Dewis a gwneud cais		
i)	Pryd gall fy mhlentyn ddechrau'r Ysgol	7
ii)	Sut y gallaf gael lle mewn ysgol i'm plentyn tair oed?	7
iii)	Sut mae dewis ysgol i'm plentyn?	8
iv)	Sut mae gwneud cais am le i'm plentyn yn y Dosbarth Meithrin neu'r lle Cynradd?	8
v)	Pryd dylwn i wneud cais am le yn yr ysgol o'm dewis?	10
vi)	A fydd fy mhlentyn yn gymwys i gael cludiant ysgol?	11
vii)	A oes gan ysgolion derfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn?	11
viii)	Sut mae llefydd mewn ysgolion yn cael eu dyrannu?	11
	Meini Prawf Gordanysgrifio	11
ix)	Sut caf i wybod am ganlyniad fy nghais am le mewn ysgol?	13
x)	Os byddaf yn methu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais,sut y rhoddir sylw i'm cais?	14
xi)	Alla i wneud cais am ysgol y tu allan i Sir Benfro?	14
xii)	Beth yw Clystyrau Ysgolion?	14
xiii)	Beth os ydw i'n dymuno addysg dan ddylanwad yr Eglwys i'm plant?	14
xiv)	Sut y mae penderfynu ar gategori iaith yr ysgol?	15
Rhan 2 - Polisïau a'r gyfraith		
i)	Yn ôl y gyfraith, pa oed sydd yn rhaid i'm plentyn fod i fynychu'r ysgol?	16
ii)	Gall fy mhlentyn gael ei addysgu mewn grwp blwyddyn gwahanol?	16
iii)	Sut mae'r Cyngor Sir yn diwallu fy newis fel rhiant?	16
iv)	A oes terfyn ar faint y dosbarthiadau mewn ysgolion?	17
v)	Pam mae angen i chi wybod am gyfrifoldeb rhiant dros fy mhlentyn?	17
vi)	Enw cyfreithiol / hysbys plentyn	17
vii)	Pa ddarpariaeth y byddwch yn ei gwneud ar gyfer personél Lluoedd Arfog y DU?	18
viii)	Pa ddarparieth sydd am deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr?	18
ix)	Beth yw hawliau plant o dramor?	18
x)	Beth yw fy hawl i apelio?	18
xi)	A fydd fy mhlentyn yn gwisgo gwisg ysgol?	18
xii)	Pa gymorth ariannol y gallwn fod yn gymwys i'w gael?	19
xiii)	Cwricwlwm	19
xiv)	Pa arholiadau cyhoeddus y bydd fy mhlentyn yn eu sefyll?	19
xv)	Pa gostau y mae'n bosibl y bydd rhaid i mi eu talu?	20
xvi)	Pa drefniadau amddiffyn plans sydd ar waith?	20

Rhan 3 – Trosglwyddo rhwng ysgolion

i)	Beth yw'r weithdrefn os ydw i am symyd fy mhlentyn i ysgol arall?	21
ii)	Sut y gallaf ychwanegu enw fy mhlentyn at y Rhestr Aros?	21
iii)	Sut mae trefnu i'm plentyn drosglwyddo i ysgol uwchradd?	21
Atodiad 1	Cysylltiadau gwefan CSP	23
Atodiad 2	Egluro'r derminoleg	24
Atodiad 3	Trefniadau Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer 2020/2021	25
Atodiad 4	Trefniadau derbyn a meini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir	33-43
Atodiad 5	Addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg yn ysgolion Cynradd Addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg yn Ysgolion Uwchradd	44 45

Siarter Lleol -
Gwasanaeth Derbyn i Ysgolion

Ym mis Ionawr 2019 roedd 61 ysgol yn Sir Benfro yn gwasanaethu 9204 disgybl oedran cynradd llawn-amser a 989 rhan-amser, a 5992 disgybl oedran uwchradd. Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yn Sir Benfro ac mae'r Uned Derbyn a Chynllunio Lleoedd yn ymdrin â'r holl geisiadau am le i ysgolion a'r trosglwyddiadau, ac eithrio i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Yr Awdurdod Derbyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yw corf llywodraethu'r ysgol dan sylw.

Gallwch ddisgwyl:

- derbyn cyngor dibynadwy a diduedd ynglŷn ag ysgolion a mynegi dewis
- y bydd eich cais am le mewn ysgol yn cael ei drin yn deg ac yn effeithlon
- y cynigir lle ichi mewn da bryd (yn amodol ar dderbyn eich cais mewn pryd)
- lle yn yr ysgol o'ch dewis oni bai bod mwy o geisiadau na'r nifer derbyn yn caniatau mynediad. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr holl geisiadau yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio
- derbyn gwybodaeth am agweddau allweddol ar bolisïau'r Cyngor Sir ynglŷn â derbyniadau a chludiant Ysgol
- cael gwybod sut i dderbyn prosbectws ysgol a sut i drefnu ymweliad ag ysgol a gwybodaeth berthnasol arall am ysgolion yn Sir Benfro
- gwybodaeth ynglŷn â'r hawl i apelio os na roddir lle i chi yn yr Ysgol o'ch dewis
- gweithdrefn gwyno agored, teg ac effeithiol os nad ydych yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwch

Os yw eich plentyn wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol ac nad ydych wedi cael lle yn yr ysgol o'ch dewis mae gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol. Mae gan unrhyw riant (ac eithrio un y mae ei blentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol) y gwrthodir lle i'w blentyn mewn ysgol, neu berson ifanc y gwrthodir lle iddo mewn chweched dosbarth ysgol, hawl statudol i apelio i banel apêl annibynnol (nid yw'r hawl hon I apelio'n ymestyn i geisiadau am addysg feithrin). Bydd gan rieni neu bobl ifanc hawl i apelio hefyd os cynigiwyd lle i blentyn neu berson ifanc ac y tynnwyd y cynnig hwnnw'n ôl.

Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich apêl yn ysgrifenedig. Bydd manylion ynglŷn â sut i apelio yn y llythyr/ebost sy'n eich hysbysu am y penderfyniad ac mae'r manylion yn y llyfryn hwn hefyd. Os ydych yn anfodlon â'r gwasanaeth a ddarperir gallwch wneud cwyn swyddogol. Mae gan y Cyngor Sir weithdrefn Gwyno, Canmol a Chyflwyno Sylwadau sydd ar gael ar gais.

Cyfleoedd Cyfartal

Nid yw polisïau ac arferion y Cyngor Sir ynglŷn â derbyn a throsglwyddo disgyblion a darparu cludiant ysgol yn gwahaniaethol. Maent yn cydymffurfio a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae gwybodaeth am addysgu Cymraeg a Saesneg yn ysgolion Sir Benfro yn Rhan 1xiv (tudalen 15).

Os ydych o'r farn eich bod wedi cael eich trin yn annheg o safbwynt cyfle cyfartal mewn perthynas â derbyn i ysgol neu gludiant ysgol cysylltwch â'r canlynol:

Huw Jones, Swyddog Proffesiynol – Derbyn a Chynllunio Llefydd
Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion,
Neuadd y Sir,
Hwlffordd.
Sir Benfro
SA61 1TP

Ffôn: 01437 764551
E-bost: derbyniadau@sir-benfro.gov.uk

Diogelu Data

Bydd y wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais yn cael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Defnyddir y wybodaeth ar y ffurflen ar gyfer gweinyddu derbyniadau ysgol neu drosglwyddiadau gyda Thrafnidiaeth Ysgol, Gwasanaethau Prydau Ysgol Am Ddim, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Iechyd Ysgol (gan gynnwys Nyrsys Iechyd Plant ac Ysgol) ar gyfer cadarnhau cofnodion ac adrannau eraill y cyngor at ddibenion monitro ystadegol yn unig.

Hysbysiad Prosesu Teg Derbyniadau

https://www.sir-benfro.gov.uk/addewid-preifatrwydd/hysbysiadau-prosesu-teg-adrannol

Rhan 1 - Dewis a gwneud cais

i) Pryd gall fy mhlentyn ddechrau'r Ysgol

Yn Sir Benfro gall plant gael eu derbyn yn rhan amser i ysgol gynradd ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn llawn-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair neu'n bump oed. Sylwer fod addysg orfodol yn dechrau pan fydd y plentyn yn cyrraedd pump oed. Dyddiad pen-blwydd eich plentyn sy'n penderfynu pryd y gall ddechrau'r ysgol, ni waeth beth yw dyddiad dechrau'r tymor. Mae'r tabl isod yn dangos pryd y gall eich plentyn gael ei dderbyn i ysgol. Gellir dod o hyd i amserlen o ran Dyddiadau Cau a Hysbysiadau yn Rhan 1v (tudalen 10). Gall rhieni ddewis i ohirio dyddiad dechrau eu plentyn ar unrhyw adeg hyd nes bod y plentyn wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol, am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddog Derbyn.

Pen-blwydd y plentyn rhwng	Tymor derbyn Meithrin
1 Ebrill - 31 Awst	Hydref
1 Medi - 31 Rhagfyr	Gwanwyn
1 Ionawr - 31 Mawrth	Haf

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion Sir Benfro yn darparu ar gyfer disgyblion o 3+ oed a gall plant fynychu yn llawn-amser pan fyddant yn bedair oed, neu'n rhan-amser yn dair oed. Pan fydd trefniadau'n bodoli rhwng ysgolion a darparwyr blynyddoedd cynnar preifat, gall disgyblion ddechrau yn yr ysgol ar ddechrau'r ail neu trydydd tymor yn dilyn penblwydd y plentyn yn dair oed. Dylech gysylltu â'r Swyddog Derbyn er mwyn cael gwybodaeth am drefniadau penodol ysgol unigol.

Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn ddechrau addysg lawn-amser hyd nes dechrau'r tymor ysgol yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Fodd bynnag, darperir lleoliad llawn-amser ar ôl pedair oed ac fe'u hanogir i fynychu'n llawn-amser er mwyn elwa'n llawn ar addysg a phrofiadau'r Cyfnod Sylfaen. Dangosir ystod oed pob Ysgol ar restr yr ysgolion ar https://www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-sir-benfro

ii) Sut y gallaf gael lle mewn ysgol i'm plentyn tair oed?

Os na chynigiwyd lle addysg rhan-amser blynyeddoedd cynnar i'ch plentyn mewn lleoliad a gynhelir (dosbarth meithrin mewn ysgol); oherwydd nad oes digon o le neu oherwydd nad yw eich ysgol leol yn derbyn plant tair oed, yna mae'n bosibl y gall yr Awdurdod Lleol ddarparu cyllid grant i gael mynediad at addysg ran-amser am ddim mewn lleoliad cymeradwy heb ei gynnal e.e. meithrinfa ddydd breifat, cylch chwarae neu Cylch Meithrin. Efallai gofynnir i chi ddarparu copi o dystysgrif geni llawn eich plentyn (a'r weithred newid enw os yn briodol) - bydd hon yn cael ei gwirio o ran enw cyfreithiol y plentyn, dyddiad geni a cyfrifoldeb rhiant.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am lefydd y blynyddoedd cynnar yn y sector nas cynhelir gan y canlynol:

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) Sir Benfro
Canolfan Dechrau'n Deg, Cross Park, Pennar, Pembroke Dock SA72 6SW

Ffôn: 01437 770014
E-bost: fis@pembrokeshire.gov.uk
Gwefan: www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd

Y Cynnig Gofal Plant i Gymru: Mae'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a ariennir gan y llywodraeth a gofal plant i rhwng 3 a 4 oes i rieni cymwys sy'n gweithio, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://www.sir-benfro.gov.uk/cynniggofal-plant-cymru

Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn cynnig gwasanaethau ehangach I deuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd penodedig a chanddynt blentyn rhwng 0 a 4 blwydd oed.

Ceir pedair elfen graidd:
- Gofal Plant o safon uchel am ddim am hyd at 2.5 awr y dydd ar gyfer plant cymwys rhwng 2 -3 oed, mewn meithrinfa gofrestredig Dechrau'n Deg
- Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd ehangach
- Sgiliau rhianta
- Datblygiad iaith cynnar

Gofal Plant:
Cynigir lle mewn meithrinfa gofrestredig Dechrau'n Deg o'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn ddwy oed am 12.5 awr yr wythnos dros bum diwrnod am gyfnod hyd at 39 wythnos y flwyddyn.

Iechyd:
Mae lles eich plentyn yn dod yn gyntaf; bydd y tîm iechyd yn cynnig cymorth a chefnogaeth ychwanegol trwy gydol y cyfnod mamolaeth a phedair blynedd gyntaf bywyd eich plentyn.

Rhianta:
Mae Dechrau'n Deg yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau rhianta lle gall rhieni dderbyn cyngor a sgiliau, cyfnewid syniadau a rhannu profiadau trwy ein grwpiau strwythuredig a grwpiau anffurfiol megis Mam a'I Phlentyn a dosbarthiadau Tylino Babi.

Datblygiad Iaith Cynnar:
Cefnogir Datblygiad Iaith Cynnar trwy nifer o weithgareddau yn cynnwys chwarae, crefftau, canu a storiâu mewn grŵp neu yn eich cartref.

Cysylltwch â Swyddog Gwybodaeth Dechrau'n Deg i weld a ydych yn gymwys ar gyfer Prosiect Dechrau'n Deg ar 01437 770004.

iii) Sut mae dewis ysgol i'm plentyn?

Mae pob ysgol yn Sir Benfro yn gwasanaethu ardal wedi'i diffinio, a elwir yn ddalgylch. Mae manylion yr ardal y mae pob ysgol yn ei gwasanaethu ar gael yn yr ysgol, neu ar wefan y Cyngor Sir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ddalgylch sy'n gwasanaethu eu hardal, ond efallai y byddwch chi'n dewis ffafrio ysgol wahanol. Cyn gwneud hynny, dylech ddarllen y dudalen **Clwstwr Ysgolion** Rhan 1xii (tudalen 14) a

gwybodaeth **Cludiant Ysgol** https://www.sir-benfro.gov.uk/trafnidiaeth-ysgol**,** sy'n ystyried y goblygiadau addysgol a chludiant pan fydd eich plentyn yn mynychu ysgol o'ch dewis. Mae rhestr o ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor Sir (www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-a-dysgu).

Mae hon yn dangos yr wybodaeth ganlynol (am y flwyddyn ysgol flaenorol):

- Ystod oedran bob ysgol
- Nifer y disgyblion ar y gofrestr
- Cynhwysedd yr ysgol a'r nifer derbyn o ganlyniad
- Nifer y ceisiadau ysgrifenedig am lefydd yn yr ysgol
- Nifer yr apelau, a'r nifer a oedd yn llwyddiannus
- Categori iaith yr Ysgol

Os ydych yn ystyried symud i ogledd ddwyrain Sir Benfro, mae angen i chi fod yn ymwybodol mai Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith ysgolion yr ardal honno.

Cynghorir chi i gysylltu â'r ysgol rydych chi'n ei hystyried er mwyn cael copi o'i phrosbectws a threfnu gyda'r pennaeth perthnasol i ymweld â'r ysgol cyn gwneud eich penderfyniad. Hefyd, gallwch gael gwybodaeth annibynnol am berfformiad ysgol trwy fynd i wefan ESTYN er mwyn gweld canfyddiadau ei hadroddiad arolygu diweddaraf. ESTYN yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – https://www.estyn.llyw.cymru Gallwch hefyd fynd i wefan Fy Ysgol Leol http://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cy.

iv) Sut mae gwneud cais am le i'm plentyn yn y Dosbarth Meithrin neu'r lle Cynradd?

P'un a ydych am i'ch plentyn fynychu eich ysgol ddalgylch neu Ysgol wahanol mae'n rhaid i chi gyflwyno cais i'r Swyddog Derbyn a gallwch nodi eich hoff ddewis o ysgolion.

Rhaid cyflwyno cais ar-lein am lefydd mewn pob categori Ysgol trwy ddefnyddio wefan y Cyngor Sir erbyn y dyddiadau cau a nodir yn Rhan 1v) (tudalen 10).

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid gwneud cais ysgrifennedig am dderbyniad trwy lenwi ffurflen gais. Nodwch nad yw'n ddigonol i ddweud wrth bennaeth eich ysgol ddewisol eich bod am sicrhau lle ac nad ydyw yn medru gwneud penderfyniad i gynnig lle. Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (GG), bydd y Swyddog Derbyniadau yn rhannu manylion y ceisiadau a dderbynnir gyda'r pennaeth priodol er mwyn i'r corff lywodraethol gwneud penderfyniad ar cynnig lle neu peidio.

Bydd cynigion ar gyfer llefydd yn unrhyw ysgol sydd yn gweithredu ar fwy nag un safle ar gyfer yr ysgol, nid unrhyw safle penodol. Yr ysgol sy'n gyfrifol am drefnu ei darpariaeth mewnol ac nid oes modd cynnal apel ar gyfer pa safle bydd yn ofynnol i'ch plentyn mynychu.

Gellir ofyn i chi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad, e.e. ar ffurf cytundeb tenantiaeth, biliau cyfleustodau diweddar, llythyr budd-dal plant neu ddatganiad banc (wedi'i ddyddio o fewn 3 mis) wrth wneud cais am le mewn ysgol.

Gallwch ddewis ffafrio mwy nag un ysgol. Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael eu derbyn i ysgol oni bai bod niferoedd yn fwy na'r Nifer Derbyn. Bydd yr Awdurdod yn dyrannu llefydd yn

unol â'r meini prawf gordanysgrifio sydd i'w gweld yn Rhan 1viii (tudalen 11). Gallwch fynegi eich bod yn ffafrio addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu ysgol Eglwysig.

Os caiff eich plentyn ei dderbyn i addysg meithrin mewn ysgol, nid yw hwn yn gwarantu lle i'ch plentyn yn nosbarth derbyn yr Ysgol gynradd; rhaid i chi ail-ymgeisio am le derbyn. Mae'r flwyddyn Derbyn yn dechrau Tymor yr Hydref y flwyddyn academaidd y mae plentyn yn cyrraedd 5 oed. Os oes mwy o geisiadau nag sydd o lefydd llawn amser ar gael, bydd y meini prawf gordanysgrifio a eglurir yn Rhan 1viii (tudalen 11) yn berthnasol.

Ar ôl cael cytundeb bod lle llawn-amser ar gael a'ch bod yn dymuno gohirio mynediad i'r ysgol, mae'n rhaid cyflwyno hyn yn ysgrifenedig i'r swyddfa dderbyn, dim ond yn ystod blwyddyn academaidd y gellir gohirio lle, fel arall rhaid cyflwyno cais o'r newydd. Efallai y caiff lle i'w dynnu'n ol os nad yw plentyn wedi dechrau yn yr ysgol o fewn pedair wythnos o'r dyddiad a gytunir.

Gellir tynnu lle mewn ysgol yn ôl os yw rhiant yn rhoi gwybodaeth anghywir neu dwyllodrus wrth wneud cais am le. Gall fod angen i chi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad mewn cysylltiad â'ch cais am le.

v) Pryd dylwn i wneud cais am le yn yr ysgol o'm dewis?

Amserlen Cais Derbyniadau
Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir

Darpariaeth	Plant a Aned Rhwng	Dyddiad cychwyn Ysgol	Gwybodaeth Allan I Rieni	Dyddiad Cau Ceisiadau	Dyddiad Hysbysu	Dyddiad Cau Apeliadau
Lle Meithrin	1 Medi 2017 i 31 Awst 2018	Ionawr Ebrill neu Medi 2021		30 Ebrill 2020	Erbyn diwedd Gorffennaf 2020	Dim hawl apelio am derbyniadau Meithrin
Dosbarth Derbyn	1 Medi 2015 i 31 Awst 2016	Tymor yr Hydref Medi 2020	Tymor yr Hydref Medi 2019	31 Ionawr 2020	16 Ebrill 2020	O fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad hysbysu
Trosglwyddo i Addysg Uwchradd	1 Medi 2008 i 31 Awst 2009	Tymor yr Hydref Medi 2020	Tymor yr Hydref Medi 2019	20 Rhagfyr 2019	1 Mawrth 2020	

Gellir gwneud ceisiadau am le mewn meithrinfa ac ysgol gynradd ar unrhyw adeg; bydd pob cais a'u derbynnir erbyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried gyda'u gilydd ac nid oes unrhyw driniaeth ffafriol yn cael ei rhoi i geisiadau cynnar. Bydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu prosesu fel ceisiadau hwyr ac ni byddant yn cael eu hystyried hyd nes bydd y rhai a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau wedi cael eu dyrannu a gall leihau eich siawns o gael lle yn eich ysgol dewisol. Er mwyn osgoi siom a gwneud y mwyaf o siawns o gael lle yn yr Ysgol o'ch dewis, sicrhewch eich bod yn cyflwyno'ch cais erbyn y dyddiad cau a nodir.

vi) A fydd fy mhlentyn yn gymwys i gael cludiant ysgol?

Nid o reidrwydd. Nid yw derbyn plentyn i ysgol yn golygu bod cludiant am ddim yn cael ei ddarparu. Mae darparu cludiant yn fater ar wahân. Nid yw'r Cyngor Sir yn darparu cludiant i ddisgyblion i ysgolion ac eithrio eu hysgol ddalgylch neu eu hysgol agosaf, a hynny dim ond i ddisgyblion cymwys. Rhaid i chi gofio mai chi fydd yn gyfrifol am drefniadau a chostau cludiant os caiff eich plentyn ei dderbyn i ysgol nad hon yw'r ysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf. Mae'r Polisi Cludiant a gwybodaeth perthnasol ar gael ar wefyn Cyngor Sir Penfro https://www.sir-benfro.gov.uk/trafnidiaeth-ysgol

vii) A oes gan ysgolion derfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn?

Oes. Mae gan bob ysgol uchafswm ac ar sail hwnnw cyfrifir y Nifer Derbyn. Rhaid i bob ysgol dderbyn disgyblion hyd at eu nifer derbyn cyhoeddedig.

Bydd y Nifer Derbyn yn adlewyrchu uchafswm nifer pob grŵp blwyddyn yn yr ysgol a dyrennir lle i'ch plentyn mewn ysgol oni bai ei bod hi'n llawn. Os bydd nifer y ceisiadau'r un peth neu'n llai na'r Nifer Derbyn, bydd yr holl ymgeiswyr yn cael eu derbyn. Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r Nifer Derbyn, bydd yr holl geisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio, gyda llefydd yn cael eu cynnig yn unol â hynny.

viii) Sut mae llefydd mewn ysgolion yn cael eu dyrannu?

Cyngor Sir Penfro yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir yn Sir Benfro. Mae polisi derbyn a meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor a welir isod yn berthnasol i'r holl Ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir yn Sir Benfro.

Bydd plant yn cael eu derbyn i'r ysgol a ddewiswyd pan fo darpariaeth a lle yn caniatáu. Os oes mwy o geisiadau am fynediad i Ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir na'r llefydd sydd ar gael, bydd y Cyngor Sir yn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio canlynol (wedi'u gweithredu yn ôl eu trefn) i flaenoriaethu ceisiadau rhieni sydd wedi dewis yr ysgol:

Meini Prawf Gordanysgrifio ar gyfer Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir yn Nhrefn Blaenoriaeth

1. Cyn ddisgyblion a disgyblion presennol sy'n derbyn gofal gan awdurdodau yng Nghymru a Lloegr yn unol ag A.22 Deddf Plant 1989
2. Disgyblion sydd a datganiad Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi'r ysgol
3. Anghenion meddygol, seicolegol neu ddysgu ychwanegol eithriadol (gweler nodyn a)
4. Disgyblion sy'n byw yn nhalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer o oed ysgol statudol yn yr ysgol ar yr adeg derbyn (gweler nodyn b)
5. Disgyblion sy'n byw yn nhalgylch yr ysgol sydd wedi mynd i ysgol fwydo (gweler nodyn c)
6. Disgyblion sy'n byw yn nhalgylch yr ysgol

7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol a bydd ganddynt frawd neu chwaer o oed ysgol statudol yn yr ysgol ar yr adeg derbyn (gweler nodyn b)

8. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol sydd wedi mynd I ysgol fwydo (gweler nodyn c)

9. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol

N.B. Pan fo Datganiad Anghenion Arbennig Addysgol sydd yn enwi ysgol penodol, rhaid cynnwys y manylion priodol wrth gwblhau'r cais. Mae ceisiadau o'r fath yn cael eu trin ar wahan.

Nodiadau

a) Gall angen meddygol neu seicolegol fod ar gyfer y plentyn neu ei rieni. Er mwyn cael eu hystyried o dan y maen prawf hwn, mae'n rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ategol annibynnol ar yr adeg ymgeisio sy'n amlinellu pam mae'r ysgol a ffefrir yn fwyaf addas i'r plentyn a'r anawsterau a fyddai'n cael eu hachosi pe byddai'n rhaid i'r plentyn fynd i ysgol wahanol.

Byddai tystiolaeth ategol a fyddai'n cael ei hystyried yn briodol yn cynnwys llythyr neu adroddiad gan un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig canlynol: Ymgynghorydd Arbenigol, Pediatregydd Cymunedol, Seicolegydd, Seicolegydd Addysg, Seiciatregydd, Ffisiotherapydd, Therapydd Galwedigaethol. Mae'n rhaid i'r llythyr neu'r adroddiad hwn fod wedi'i seilio ar wybodaeth y gweithiwr proffesiynol ei hun am gyflwr ac amgylchiadau'r plentyn /rhiant. Sylwer NA dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu at y diben hwn.

Ni roddir blaenoriaeth o dan y maen prawf hwn os na chyflwynir y dystiolaeth ofynnol ar yr adeg ymgeisio.

Mae'n rhaid i Anghenion Dysgu Ychwanegol gael i gadarnhau gan Wasanaeth Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol.

b) Mae brawd neu chwaer yn golygu brawd llawn/chwaer lawn, hanner brawd/chwaer neu lysfrawd/llyschwaer, neu blant a fabwysiadwyd neu blant maeth, sy'n byw yn yr un cartref ar yr adeg ymgeisio.

c) Ysgol fwydo yw ysgol gynradd o fewn yr un 'clwstwr o ysgolion' ag ysgol uwchradd.

Lle mae'r flaenoriaeth yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth o dan bob categori gordanysgrifio i frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog (h.y. gefeilliaid, tripledi ac ati). Os yw'r plentyn olaf i'w dderbyn hyd at y Nifer Derbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd yr Awdurdod yn derbyn y brawd/chwaer arall neu'r brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

O ran y categorïau gordanysgrifio sy'n cynnwys maen prawf brodyr a chwiorydd (categorïau 4 a 7), os oes mwy o flaenoriaeth na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion hynny sydd agosaf o ran oed i'r brawd/chwaer sydd eisoes yn

yr ysgol (e.e. disgybl â brawd neu chwaer ym mlwyddyn 3 yn cael blaenoriaeth uwch na disgybl â brawd neu chwaer ym mlwyddyn 6).

Yn achos canlyniad cyfartal mewn unrhyw gategori, cynigir lleoedd I ddisgyblion sy'n byw agosaf i'r ysgol, a fesurir yn ôl y pellter cerdded byrraf o'r giât ysgol agosaf sydd ar gael i'r pwynt lle mae annedd preifat y disgybl yn cyfarfod â'r briffordd gyhoeddus.

Mae'r Cyngor Sir yn defnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol (SWD) I gyfrifo pellterau o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd cilometrau. Bydd y llwybr teithio byrraf yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio data'r Arolwg Ordnans (AO) o'r man lle mae cartref yr ymgeisydd yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus hyd at y man lle mae mynedfa agosaf yr ysgol yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus. Pennir cyfesurynnau cyfeiriad cartref ymgeisydd trwy ddefnyddio data'r AO a Rhestr Eiddo. Os bydd unrhyw ddadleuon yn codi ynghylch pellterau, bydd swyddog yn mesur y pellter gan ddefnyddio cerbyd sydd ag odomedr wedi'i raddnodi.

Mae'n bwysig bod pob cais yn cael ei dderbyn erbyn y dyddiadau a bennwyd fel y gellir eu hystyried gyda'i gilydd ac fel y caiff y meini prawf gordanysgrifio eu gweithredu'n deg a chyfiawn ym mhob achos. Golyga hynny hefyd y gellir ymdrin yn brydlon ag unrhyw apelau ac y gellir gwneud y penderfyniad mewn da bryd cyn y dyddiad y disgwylir i'r plentyn ddechrau'r ysgol. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau cynnar – bydd yr holl geisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

At ddibenion derbyn i ysgolion a chludiant ysgol, os yw'r plentyn wedi bod yn byw gyda mwy nag un rhiant/person gyda cyfrifoldeb rhiant, ac sydd heb symud i un o'r ddau cyfeiriad, yna ystyrir y cyfeiriad lle telir budd-dal plant fel y cyfeiriad cartref.

Os na fydd y Cyngor Sir yn gallu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol o'i ddewis yn ystod y cylch derbyn arferol o ganlyniad i ordanysgrifio, bydd ei enw yn cael ei ychwanegu at y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y ceisir amdano. Wedi hynny, disgwylir i rieni i wneud cais newydd ar gyfer mynediad. Bydd y flaenoriaeth ar gyfer unrhyw lefydd a fydd yn dod ar gael yn cael ei rhoi yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio uchod ac nid yn ôl dyddiad cyflwyno'r cais gwreiddiol am le.

Gweler Atodiad 4 (tudalen 33) am feini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

ix) Sut caf i wybod am ganlyniad fy nghais am le mewn ysgol?

Cewch hysbysiad gan Swyddog Derbyn y Cyngor Sir a fydd yn rhoi canlyniad unrhyw gais am dderbyniad ar y dyddiad cynnig cyffredin, gweler Rhan 1v (tudalen 11) o'r Amserlen Dderbyn. Pan cynnigir lle, disgwylir i rieni dderbyn trwy ymateb i'r ebost fydd yn cael ei anfon allan gan y system.

Os nad ydych am dderbyn y lle a gynnigir, cysylltwch a'r Swyddog Derbyn cyn gynted a phosib. Os digwydd i'ch cais gael ei wrthod, bydd y ebost/llythyr a dderbyniwch sy'n amlinellu'r rhesymau dros y penderfyniad yn cynnwys profforma i'w dychwelyd i'r swyddfa dderbyn, gwybodaeth fod enw eich plentyn wedi'i ychwanegu at y rhestr aros a gwybodaeth am eich hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, gweler 'Beth yw fy hawliau apelio?' Rhan 2x (tudalen 18).

Sylwer nad oes hawl apelio yn achosion ceisiadau am addysg meithrin (oedran an-statudol).

x) Os byddaf yn methu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais, sut y rhoddir sylw i'm cais?

Bydd ceisiadau hwyr am lefydd h.y. ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a nodir ar Rhan 1v (tudalen 10), yn cael eu hystyried ar ôl yr holl geisiadau a dderbyniwyd mewn pryd (oni bai bod rhesymau eithriadol pam fo'r cais yn hwyr, y mae'n rhaid eu hegluro adeg gwneud y cais). Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail y dyddiad a dderbyniwyd a'r meini prawf gordanysgrifio, gan ystyried nifer y disgyblion presennol, y llefydd sydd wedi'u dyrannu a'r darpar ddisgyblion pan wneir y cais. Bydd hyn yn golygu os yw'r ysgol a ddewiswyd gennych wedi derbyn gormod o geisiadau, hyd yn oed os ydych yn gwneud cais er mwyn i'ch plentyn fynychu'r ysgol ddalgylch, y gallech fod yn llai tebygol o gael lle wedi'i ddyrannu os yw eich cais yn hwyr.

Os ydych yn ailfeddwl am eich dewis o ysgol ar ôl cyflwyno'ch cais gwreiddiol rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Derbyn yn ysgrifenedig. Os gwneir y penderfyniad hwn ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig, yna caiff eich cais am eich dewis newydd ei ystyried yn gais hwyr hyd yn oed os cafodd eich cais gwreiddiol ei dderbyn mewn pryd.

xi) Alla i wneud cais am ysgol y tu allan i Sir Benfro?

Gallwch, ond yn yr achos hwn, dylech wneud cais i'r Cyngor sy'n cynnal yr ysgol o'ch dewis. Mae pob Cyngor Sir yn cynhyrchu llyfryn gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys meini prawf a chanllawiau ar gyfer gwneud cais.

Os ydych am wneud cais am le mewn ysgol yn un o'n hardaloedd Cyngor Sir cyfagos, dylech gwneud ceisiadau ar-lein i'r awdurdod priodol:

Sir Gaerfyrddin
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Cyngor Sir Caerfyrddin
Rhan Addysg a Phlant
Adeilad 2
Parc Dewi Sant
Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin
SA31 3HB
Ffôn: 01267 246500
Wefan: www.sirgar.llyw.cymru

Ceredigion
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Ceredigion
Rhan Addysg a Gwasanaeth Cymunedol
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth
SY23 3UE
Ffôn: 01970 617911
Wefan: www.ceredigion.llyw.cymru

xii) Beth yw Clystyrau Ysgolion?

Mae ysgolion yn Sir Benfro yn gweithredu ar sail 'clwstwr ysgolion' ac mae cydweithredu agos rhyngddynt. Nod model y clwstwr ysgolion yw cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion mewn ffordd sy'n sicrhau cynnydd, parhad a chynhaliaeth i ddisgyblion wrth iddynt symud trwy wahanol gyfnodau eu haddysg. Mae plant fel arfer yn trosglwyddo i'r ysgol gyswllt yn y clwstwr ysgolion. Mae rhai ysgolion cynradd yn 'bwydo' mwy nag un ysgol uwchradd oherwydd bod eu dalgylchoedd yn gorgyffwrdd.

xiii) Beth os ydw i'n dymuno addysg dan ddylanwad yr Eglwys i'm plant?

Mae gwybodaeth gyffredinol am ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig ar gael gan y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol briodol. Dyma'r cyfeiriadau a'r manylion cyswllt:

Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parch. John Cecil
Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth
Y Ficerdy
Steynton
Aberdaugleddau
SA73 1AW

Ffôn: 01646 692974
ebost: CecilJ7@hwbcymru.net

Yr Eglwys Gatholig
Mr Paul White
Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth
Y Swyddfa Lysol
27 Heol y Cwfaint
Abertawe
SA1 2BX

Ffôn: 01792 652757
ebost: education@menevia.org

Dylid cyflwyno ceisiadau am lefydd mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ar-lein gan ddefnyddio gwefan y Cyngor Sir. Fodd bynnag, mae cyrff llywodraethol yr ysgolion yma yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar materion derbyn. Mae gan yr ysgolion hyn eu meini prawf gordanysgrifio eu hunain, a cheir manylion y rhain yn Atodiad 4 (tudalen 33).

xiv) Sut y mae penderfynu ar gategori iaith yr ysgol?

Mae'r Cyngor Sir yn credu'n gryf mewn gwerth addysgol caffael dwy iaith. Nod y polisi dwyieithog hwn yw addysgu disgyblion fel eu bod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth adael yr ysgol gynradd, fel eu bod yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y gymuned ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Ystyriaethau Ieithyddol a Diwylliannol
Rydym yn derbyn y ffaith bod traddodiadau ieithyddol a diwylliannol neilltuol yn rhai ardaloedd o'r Sir sy'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu polisi iaith effeithiol ar gyfer Sir Benfro gyfan. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr agwedd at weithredu'r polisi.

Canolfannau Cymraeg mewn ysgolion uwchradd

Mae gan Gyngor Sir Penfro weledigaeth glir ar gyfer datblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ac mae hyn er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth o ' r safon uchaf ar draws yr awdurdod. Mae ' r weledigaeth hon yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol canlynol, h.y.

- Cydnabod hawl pob plentyn i ddysgu Cymraeg;
- Hyrwyddo ' r safonau uchaf posibl;
- Yr angen i drin y Gymraeg a ' r Saesneg yn gyfartal;
- Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.

Y weledigaeth hon yw sail cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg y cyngor sy ' n nodi ei gynlluniau i gyflawni canlyniadau penodol Llywodraeth Cymru. Mae gan Sir Benfro dair canolfan iaith sydd â ' r nod o ddarparu dysgu Cymraeg dwys er mwyn galluogi plant i ennill lefel o ruglder sydd ei hangen i drosglwyddo i addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae ' r canolfannau iaith hyn yn gweithredu o ysgol y Preseli, Ysgol Bro Gwaun ac ysgol Caer Elen. Mae polisi Canolfan Iaith wrthi ' n cael ei ddatblygu a bydd angen ei ystyried law yn llaw â ' n trefniadau derbyn.

Gweler Atodiad 5 (Tudalen 44 + 45)

Rhan 2 - Polisïau a’r gyfraith

i) Yn ôl y gyfraith, pa oed sydd yn rhaid i’m plentyn fod i fynychu’r ysgol?

Rhaid i rieni plant rhwng 5 a 16 oed sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg llawn-amser addas. Mae plentyn yn cyrraedd oedran ysgol statudol ar ddechrau tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 5 oed. I’r gwrthwyneb, rhaid I bobl ifanc aros yn addysg llawn-amser tan eu bod wedi cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol; y dyddiad gadael ysgol yw’r dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol mae’r plentyn yn cyrraedd 16 oed.

ii) Gall fy mhlentyn gael ei addysgu mewn grwp blwyddyn gwahanol?

Mae gan yr Awdurdol Leol Canllaw i Arfer Dda ar Addysgu Pobl Ifanc Tu Allan i'w Grwp Blwyddyn gronolegol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wrth ystyried cais i ddal yn ol neu symud ymlaen berson ifanc mewn addysg. Rhaid i rieni gysylltu a'u ysgol er mwyn trafod y pwnc.

https://supportandprovision.pembsinclusionservice.wales/cylhafan - dewiswch Cefnogaeth a Darpariaeth ar gyfer ADY - Polisiau a Strategaethau – Addysg Pobl Ifanc y tu allan i’w Hoedran Cronolegol

iii) Sut mae’r Cyngor Sir yn diwallu fy newis fel rhiant?

Yn ôl y gyfraith, mae’n ofynnol i’r Cyngor Sir wneud trefniadau i rieni fynegi ym mha ysgol y maent am i’w plentyn gael ei addysg, a darparu cyfle i roi rhesymau dros eu dewis cyn cynnig unrhyw lefydd. Rhaid i’r Awdurdod Derbyn ddiwallu eich dewis os yw hynny’n bosib, ond gall rhai ffactorau atal hyn.

Mae’r rhain yn cynnwys:
- ddefnyddio adnoddau ac adeiladau’n effeithlon
- darparu addysg yn effeithlon
- cyfyngiadau statudol ar faint y dosbarthiadau

Mae gan bob ysgol Nifer Derbyn, sy’n cael ei ddefnyddio fel canllaw wrth benderfynu a yw unrhyw grŵp blwyddyn mewn ysgol yn llawn neu a oes llefydd ar gael. Os oes mwy o geisiadau nag o lefydd, yna bydd y meini prawf gordanysgrifio yn Rhan 1viii (tudalen 11) yn berthnasol. Mae Nifer Derbyn pob ysgol i’w weld yn y rhestr ysgolion (https://www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-a-dysgu .

Gall rhieni fynegi dewis ar gyfer addysg eu plant pan fyddan nhw’n:

3 oed - dosbarthiadau meithrin / unedau blynyddoedd cynnar
ynghlwm wrth ysgolion babanod neu gynradd (lle bo'r rhain ar gael).
Mae plant tair oed yn mynychu’n rhan-amser yn unig

4- 5 oed - Ysgolion babanod neu Rhannau babanod ysgolion cynradd

11 oed - Addysg uwchradd

iv) A oes terfyn ar faint y dosbarthiadau mewn ysgolion?

Oes**.** Ar wahân i rai eithriadau cyfyngedig iawn, dywed y gyfraith na chaiff unrhyw ddosbarth babanod gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion sy'n cael eu dysgu gan un athro neu athrawes. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod targed na ddylai unrhyw ddosbarth iau fod yn fwy na 30 o ddisgyblion.

v) Pam mae angen i chi wybod am gyfrifoldeb rhiant dros fy mhlentyn?

Mae'n rhaid i'r Awdurdod wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' ar gyfer pob plentyn ac mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud cais am le gadarnhau ei statws. Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod awdurdod priodol yn cael ei roi pan fo angen caniatâd rhieni ar yr ysgol. Bydd yn gwneud yn siŵr hefyd bod unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant nad ydynt yn byw gyda'r plentyn yn gallu derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn, gan fod ganddynt hawl i gael yr wybodaeth hon oni bai bod gorchymyn llys penodol sy'n atal hynny.

Pan fo mwy nag un person â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, rhaid i'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen gais am le mewn ysgol ddilyn pob cam rhesymol i drafod a chytuno ar y ffurflen gyda'r rhieni sy'n rhannu'r cyfrifoldeb rhiant, os ydynt yn gwybod lle maent yn byw. Os nad yw'r unigolyn yn gwybod, dylid nodi hyn yn ysgrifenedig. Gellir dynnu'r lle yn ol yn gyfreithlon os yw'r wybodaeth a roddir yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol, gan gynnwys anghydfodau cyfrifoldeb rhiant.

Pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn?

- Mae gan famau gyfrifoldeb rhiant bob amser (oni bai bod gorchymyn llys yn nodi nad ei chyfrifoldeb hi yw'r plentyn mwyach) e.e. mewn achosion o fabwysiadu.
- Mae gan dadau a oedd yn briod i'r fam cyn 2003 gyfrifoldeb rhiant.
- Mae gan dadau gyfrifoldeb rhiant hefyd dros blentyn os cafodd y plentyn ei eni ar ôl 2003 a'i enw ef sydd ar dystysgrif geni'r plentyn.
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig.

Gofynnir i rieni gydweithio â'r Swyddog Derbyn drwy ddarparu manylion i'r ysgol am yr unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant dros ddisgybl i'r ysgol. Dylid hysbysu'r ysgol ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn y trefniadau am gyfrifoldeb rhiant neu ofal am eich plentyn o ddydd i ddydd. Mae unrhyw gyfeiriad at rieni yn y llyfryn hwn yn cynnwys pawb sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol rhiant.

Gallai'r Cyngor Sir ofyn am dystiolaeth o ran cyfrifoldeb rhiant a/neu dystysgrif geni'r plentyn, os yw'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol.

vi) Enw cyfreithiol / hysbys plentyn

Enw cyfreithiol eich plentyn yw'r hyn a nodir ar ei dystysgrif geni. Cofiwch sicrhau mae'r enw hwn a roddir ar bob ffurflen gais am dderbyn a throsglwyddo. Os yw eich plentyn yn cael ei adnabod wrth enw arall, yna dylid cynnwys yr enw hwnnw hefyd ar y ffurflenni perthnasol. Mae gweithdrefnau penodol i'w dilyn ar gyfer newid enw cyfreithiol plentyn, ac mae modd gwneud hyn trwy Weithred Newid Enw neu Ddatganiad Statudol. Mynnwch gyngor cyfreithiol cyn ystyried hyn a gofalwch fod ysgol eich plentyn yn ymwybodol o unrhyw newidiadau wedi hynny i enw cyfreithiol y plentyn trwy ddarparu copi o'r dogfennau perthnasol.

vii) Pa ddarpariaeth y byddwch yn ei gwneud ar gyfer personél Lluoedd Arfog y DU?

Mae teuluoedd personél Lluoedd Arfog y DU a gweision eraill y Goron yn gorfod symud yn aml o fewn y DU a thramor, yn aml yn gymharol fyr rybudd. O ganlyniad, ystyrir ceisiadau am leoedd ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol sydd i ddod os cânt eu cyflwyno ynghyd â llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd. Yna dyrennir lleoedd ysgol ymlaen llaw os bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf pan fydd yn symud i'w leoliad newydd. Derbynnir hefyd gyfeiriad post uned gan bersonél y lluoedd arfog os na fydd cyfeiriad cartref newydd ar gael.

viii) Pa ddarparieth sydd am deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr?

Caiff ceisiadau sy'n ymwneud a phlant Sipsiwn a Theithwyr i ysgol yn Sir Benfro, boed yn byw yn barhaol neu dros dro yn yr ardal, eu trin mor gyflym a phosib er mwyn dyrannu'r ysgol priodol agosaf.

ix) Beth yw hawliau plant o dramor?

Mae gan blant o dramor boed hynny gyda'u rhieni neu hebddynt, yr un hawliau i addysg â phlant sy'n Ddinasyddion Prydeinig. O ganlyniad, bydd y Cyngor Sir yn trin ceisiadau o'r fath am gael eu derbyn i ysgolion yn yr un modd. Bydd yr Awdurdol Leol yn sicrhau na fydd oedi afresymol wrth sicrhau mynediad ysgol i ddisgyblion sy'n ceisio lloches neu ffoaduriaid. Bydd arferion derbyn yn gyfesur a'r rhai sydd yn berthnasol i bob disgybl arall.

x) Beth yw fy hawl i apelio?

Rhaid i apelau ar gyfer ceisiadau am le Derbyn ac uwch gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig, gan amlinellu'r rhesymau dros wneud hynny, a'u hanfon at y Cyfarwyddwr Dros Blant ac Ysgolion cyn pen 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) wedi i chi gael eich hysbysu na fu eich cais am le mewn ysgol yn llwyddiannus. Bydd apelau yn cael gwrandawiad ac yn cael eu hystyried gan y Panel Apel Annibynnol cyn pen 30 diwrnod ysgol wedi'r dyddiad cau penodol ar gyfer derbyn apelau, neu cyn pen 30 diwrnod ysgol o dderbyn yr apêl yn ysgrifenedig osgwneir yr apêl y tu allan i'r broses dderbyn sydd wedi ei hamserlennu. **Ceir gwrandawiad ar apelau a dderbynnir yn ystod gwyliau haf yr ysgol o fewn 30 diwrnod gwaith.** Bydd gennych yr hawl i gyflwyno eich achos i'r Panel yn bersonol. Gall y Panel ganiatáu i chi ddod â ffrind gyda chi neu gael eich cynrychioli; hefyd, caniateir i blant roi tystiolaeth os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae penderfyniad y Panel Apêl yn gorfodi'r Cyngor Sir Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i ufuddhau. Fodd bynnag, nid oes hawl apelio ar gyfer ceisiadau meithrin.

Os gwrthodir lle i chi mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, bydd yr Ysgol dan sylw yn dweud wrthych beth yw ei gweithdrefn apelio.

xi) A fydd fy mhlentyn yn gwisgo gwisg ysgol?

Ym mis Ebrill 2019, bydd Cyngor Sir Penfro yn cyflwyno cynllun newydd o'r enw'r Grant Datblygu Disgyblion+. Cynllun gan Gyngor Sir Penfro gyda'r bwriad o helpu rhieni sydd mewn sefyllfaoedd anodd i brynu gwisgoedd ysgol yw GDD+ Sir Benfro. Ym mis Ebrill 2019, bydd Cyngor Sir Penfro yn cynnig grant i deuluoedd sy'n wynebu 'amgylchiadau eithriadol' i'w cefnogi gyda chostau gwisgoedd ysgol ac offer ysgol.

Mae GDD+ ar gael i bob plentyn sydd o oed ysgol - does dim rhaid i'ch plentyn fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Cysylltwch â Chyngor Sir Penfro, Gwasanaethau Cefnogi Disgyblion, Tîm Cefnogi Ymarfer, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP. Ffôn: 01437 774551 all. 5813. Gofynnwch am y Swyddog Cefnogi Disgyblion (ar gyfer yr ysgol / clwstwr o ysgolion).

xii) Pa gymorth ariannol y gallwn fod yn gymwys i'w gael?

Os yw eich plentyn yn aros yn yr ysgol ar ôl yr oedran gadael statudol, gallai fod yn gymwys i gael Lwfans Cynhaliaeth Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r budd-dal yn ddibynnol ar brawf modd a bydd arnoch angen darparu manylion am eich incwm. Mae ffurflenni cais ar gael gan Ysgol uwchradd eich plentyn neu ar wefan Lwfans Cynhaliaeth Addysg Cymru www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

xiii) Cwricwlwm

Yn ystod addysg gynradd a'r tair blynedd gyntaf addysg uwchradd, mae pob ysgol yn cynnig rhaglen lydan a chytbwys, sy'n cynnwys holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yr amcan yw sicrhau llwyfan cadarn o sgiliau sylfaenol, gwybodaeth a dealltwriaeth ac i hyrwyddo datblygiad personol pob disgybl.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi llyfryn ar gyfer rhieni disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n egluro'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru a'r modd y mae cynnydd disgybl yn cael ei fesur. Mae'r rhain ar gael gan ysgol eich plentyn neu ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/?lang=cy

xiv) Pa arholiadau cyhoeddus y bydd fy mhlentyn yn eu sefyll?

Mae pob arholiad cyhoeddus a drefnir ar gyfer eich plentyn yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chânt eu cymeradwyo gan y Gymwysterau Cymru, sef y rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gwymwysterau yng Nghymru. Cyhoeddir y cymhwysterau a gymeradwyir ar wefan Cymwysterau Cymru (https://llywcymru/cwricwlwm-ac-asesu).

Yr ysgol sy'n penderfynu cofrestru eich plentyn ar gyfer arholiadau cyhoeddus. Mae'n rhaid talu ffi am bob arholiad ac mae'r ysgol yn talu'r gost hon pan gaiff eich plentyn ei gofrestru am y tro cyntaf. Os yw eich plentyn yn colli arholiad heb reswm meddygol dilys, yna chi fydd yn gyfrifol am dalu'r ffi. Yn yr un modd, gallech fod yn gyfrifol am dalu'r ffi am ailsefyll arholiadau. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn gallu darparu rhagor o fanylion i chi am y materion hyn.

Bydd pob ysgol yn rhoi manylion eu canlyniadau arholiadau cyhoeddus i chi os gofynnwch amdanynt.

Yn ogystal â'r uchod, yn rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i wella safonau llythrennedd a rhifedd, bydd yn ofynnol i bob dysgwr ym mlynyddoedd 2 i 9 (7-14 oed) gael ei asesu'n flynyddol trwy ddefnyddio profion darllen a rhifedd cenedlaethol.

xv) Pa gostau y mae'n bosibl y bydd rhaid i mi eu talu?

Yn ystod cyfnod eich plentyn yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, ceir achlysuron lle gofynnir i chi wneud cyfraniad tuag at y costau. Gellir cael gwybodaeth am bolisi ysgol ynghylch codi tâl a pheidio â chodi tâl ar gyfer gweithgareddau ysgol gan Bennaeth yr ysgol o dan sylw.

xvi) Pa drefniadau amddiffyn plant sydd ar waith?

Gofal a ffyniant disgyblion yw prif bryder pob ysgol. Bydd holl staff ysgolion yn cadw at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae gan bob ysgol her bolisi diogelu ac Unigolyn Uwch Penodedig (DSP) sy'n gyfrifol am faterion diogelu ac am ddelio ag honiadau unigol o gam-drin.

Mae dyletswydd statudol ar ysgolion i weithredu er budd y plant ac, felly, dyletswydd i wneud cyfeireb ddiogelu i'r Tîm Asesu Gofal Plant (CCAT) yn Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol os oes pryderon ynghylch lles plentyn neu os oes honiad o gam-drin. Fel arfer, bydd caniatâd rhiant yn cael ei geisio cyn gwneud cyfeireb. Fodd bynnag, er mwyn diogelu plentyn, bydd weithiau'n angenrheidiol gwneud cyfeireb heb hysbysu'r rhieni. Mae hwn yn faes gwaith sensitif ac mae cefnogaeth rhieni'n bwysig pan fydd ysgolion yn gweithredu protocolau diogelu. Gallwch fod yn dawel eich meddwl bod staff ysgolion yn gweithio gyda ffyniant eich plentyn yn gadarn mewn golwg. Mae ysgolion Sir Benfro'n gweithredu Polisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio, gyda'r bwriad o greu fframwaith ar gyfer trin materion yn ymwneud â bod yn agored i niwed, radicaleiddio a dod i gysylltiad â barn eithafol.

Mae holl ysgolion Sir Benfro'n cymryd rhan mewn prosiect gyda Heddlu Dyfed-Powys o'r enw Operation Encompass. Operation Encompass yw hysbysu i ysgolion, cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf, pan fu plant neu bobl ifanc yn agored i, neu ynghanol, unrhyw ddigwyddiad teuluol. Hyfforddwyd y Pennaeth a'r DSP i ddefnyddio'r wybodaeth am y digwyddiad teuluol i sicrhau bod plant a/neu eu teuluoedd yn cael cymorth digonol ar ôl iddynt fod ynghanol, neu'n agored i, ddigwyddiad camdriniaeth deuluol.

Rhan 3 - Trosglwyddo rhwng ysgolion

i) Beth yw'r weithdrefn os ydw i am symud fy mhlentyn i ysgol arall?

Mae'r Cyngor yn barod i ystyried ceisiadau am drosglwyddo rhwng ysgolion ar adegau ar wahân i amserau derbyn arferol. Fodd bynnag, os ydych yn ceisio trosglwyddo eich plentyn, rhaid ichi drafod hyn yn gyntaf gyda phennaeth presennol eich plentyn neu bennaeth y flwyddyn mewn ysgol uwchradd. Dylech hefyd gysylltu â phennaeth yr ysgol y dymunwch i'ch plentyn fynd iddi. Gan nad yw trosglwyddo yn ystod y tymor yn cael ei annog, trosglwyddir fel arfer ar ddechrau tymor yn unig, ac eithrio pan fo'r sefyllfa'n codi am fod y teulu wedi newid cyfeiriad. Rhaid cwblhau'r ffurflen gais ar-lein am drosglwyddo ym mhob achos, ac mae hon ar gael ar wefan y Cyngor Sir. Fel arfer ni fydd ceisiadau trosglwyddo yn cael eu hystyried mwy nag 1 tymor cyn y trosglwyddiad a rhaid ei gyflwyno o leiaf 1 mis cyn dechrau'r tymor.

Mae newid ysgolion yn gallu bod yn brofiad anodd i ddisgyblion a gall darfu ar drefniadaeth dosbarthiadau. Dylid gwneud hyn pan fydd popeth arall wedi methu, ac ni ddylid ei ystyried hyd nes y rhoddwyd sylw priodol i'r holl ffyrdd posibl eraill o ddatrys problemau. Os ydych yn gwneud cais am drosglwyddo oherwydd eich bod yn pryderu ynglŷn â chynnydd eich plentyn neu oherwydd bod unrhyw broblemau yn ysgol eich plentyn, fel cam cyntaf dylech drafod y mater gyda phennaeth yr ysgol bresennol.

Pan fydd trosglwyddiad ysgol wedi cael ei gytuno a'r rieni wedi'u hysbysu, byddwn yn cymryd yn ganiataol y byddant yn derbyn y lle i'w plentyn yn yr ysgol a ffafrir ac nad ydynt am gadw lle yn yr ysgol bresennol. Os yw'r amgylchiadau yn newid a bod angen lle mewn ysgol wahanol, neu'r ysgol flaenorol, rhaid gwneud cais newydd. Dylai rieni nodi y gall y lle sydd yn yr ysgol mae eu plentyn yn gadael, eisoes gael eu dyrannu i rywun arall.

ii) Sut y gallaf ychwanegu enw fy mhlentyn at y Rhestr Aros?

Unwaith y bydd y broses ddyrannu wedi ei chwblhau a bod eich dewis Ysgol wedi ei wrthod (gweler Rhan 2 x Hawliau Apêl tudalen 18) bydd enw eich plentyn yn cael ei ychwanegu yn awtomatig at y rhestr aros tan ddiwedd y flwyddyn ysgol academaidd y maent wedi gwneud cais. Wedi hynny, dylid disgwyl i'r rhieni wneud cais newydd yn ystod tymor yr haf i gael eu derbyn i mewn i'r flwyddyn academaidd ganlynol. Bydd y flaenoriaeth ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael ei roi yn ôl y meini prawf gordanysgrifio ac nid yn ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cais am le yn wreiddiol.

iii) Sut mae trefnu i'm plentyn drosglwyddo i ysgol uwchradd?

Mae ysgolion uwchradd Sir Benfro yn cynnig addysg gyfun i ddisgyblion o bob gallu. Mae trosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd yn digwydd fel arfer ym mis Medi yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn un ar ddeg oed. Gall Pennaeth ysgol gynradd eich plentyn roi gwybodaeth i chi ynglŷn â'r ysgol uwchradd y dylai eich plentyn ei mynychu fel arfer. Mae manteision addysgol i fynychu'r ysgol sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd y plentyn fel rhan o'r "clwstwr o ysgolion" gweler Rhan 1xii (tudalen 14).

Byddwn yn anfon gwybodaeth trosglwyddo i'r ysgol uwchradd atoch trwy ysgol gynradd eich plentyn yn ystod tymor yr Hydref cyn y disgwylir i'ch plentyn symud i ysgol uwchradd.

Gofynnir i chi fynegi eich dewis o ysgol uwchradd erbyn diwedd tymor yr Hydref a gofynnir i chi ddefnyddio'r system ar-lein er mwyn gwneud hynny. Bydd eich cais yn cael eu ystyried a chewch eich hysbysu am y canlyniad ar y dyddiad cynnig cyffredin, gweler Rhan 1v (tudalen 10) am yr Amserlen Dderbyn.

Os oes mwy o geisiadau am lefydd na'r llefydd sydd ar gael bydd y meini prawf gordanysgrifio yn Rhan 1viii (tudalen 11) yn berthnasol.

Ni ddylech ragdybio y bydd mynychu unrhyw ddiwrnod neu noson agored ar gyfer darpar ddisgyblion uwchradd yn golygu y caiff y plentyn ei dderbyn i'r ysgol neu y caiff cludiant ei ddarparu.

Atodiad 1 Cysylltiadau Cyngor Sir Penfro

Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn hyrwyddo cyflawniad a lles pob plentyn a pherson ifanc. Yn y bôn, golyga hyn wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc â mynediad i'r un cyfleoedd a gwasanaethau â phawb arall a'u bod yn derbyn addysg o ansawdd uchel, sy'n eang, yn gytbwys ac yn berthnasol i fodloni eu hanghenion unigol. Mae'r strategaeth Cynhwysiant yn nodi y gall, ac y dylai, y rhan fwyaf o ddysgwyr oedran ysgol gael eu haddysgu gydag eraill yr un oed â nhw yn ysgol eu cymuned leol, sydd â'r offer priodol ac sy'n addas i'r diben. Os hoffech gael cyngor ac arweiniad cyffredinol ynghylch angen ychwanegol eich plentyn, dylech gysylltu â'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni drwy ffonio 01437 776354.
Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan Cyngor Sir Penfro:
https://www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaeth-cynhwysiant-ac-ady

Gwasanaeth Prydau Ysgol

Darperir prydau ysgol gan Dîm Arlwyo Cyngor Sir Penfro. Mae'r bwydlenni a gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Cyngor Sir Penfro:
https://www.sir-benfro.gov.uk/prydau-ysgol

Gellir dod o hyd i wybodaeth am Brydau Ysgol Am Ddim ar y dudalen we ganlynol –
https://www.sir-bemfro.gov.uk/prydau-ysgol/prydau-ysgol-am-ddim

Cludiant Ysgol

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Penfro (fel yr Awdurdod Lleol) I ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion oedran ysgol gorfodol i'w hysgol fwyaf addas agosaf a gynhelir os ydynt yn byw yn bellach na'r pellter cerdded statudol.

Caiff cludiant am ddim ei ddarparu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru - Canllawiau Gweithredol a pholisi cludiant Ysgolion Cyngor Sir Penfro fel yr amlinellir isod.
https://www.sir-benfro.gov.uk/trafnidiaeth-ysgol/gwybodaeth-cludiant-ysgol-a-ffurflenni-cais

Rhestr Ysgolion

Mae ar gael ar wefan Cyngor Sir Penfro:
https://www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-sir-benfro

Tymhorau a gwyliau

Mae ar gael ar wefan Cyngor Sir Penfro:
https://www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-sir-benfro/tymhorau-a-gwyliau-ysgol

Atodiad 2 Egluro’r derminoleg

Blwyddyn Academaidd
Blwyddyn Ysgol sy’n cychwyn ar Fedi 1af ac yn gorffen ar yr 31ain Awst canlynol.

Nifer Derbyn
Nifer y lleoedd ysgol y mae'n rhaid i'r awdurdod derbyn eu cynnig ym mhob grŵp oedran perthnasol mewn ysgol, sef yr awdurdod derbyn.

Dalgylch
Yr ardal ddaearyddol y bwriadwyd i’r ysgol ei gwasanaethu.

Oedran Ysgol Gorfodol
Mae plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 5 oed. Mae plentyn yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol os yw wedi cyrraedd 16 oed ar y dyddiad gadael ysgol rhagnodedig, neu cyn y flwyddyn ysgol nesaf, sef y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin.

Cyngor Sir
Dyma’r corff llywodraeth leol sy’n gyfrifol am drefnu a chynnal gwasanaethau addysg. Cyngor Sir Penfro sy’n gyfrifol am hyn yn Sir Benfro. Mae’r Cyngor Sir yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau statudol.

Cwricwlwm
Yr holl weithgareddau a chyfleoedd ar gyfer dysgu a ddarperir gan ysgol.

Ysgol a Gynhelir
Ysgol a ariennir ac a gynhelir gan Gyngor Sir Penfro (sef yr Awdurdod Addysg Lleol).

Ysgol nas Cynhelir neu Ysgol Annibynnol
Ysgol nad yw’n cael ei hariannu na’i chynnal gan Gyngor Sir.

Meithrin
Llefydd ysgol ar gyfer plant o’r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed hyd nes iddynt ddod i oedran ysgol ar gyfer y dosbarth Derbyn.

Lle Ysgol Cynradd (Dosbarth Derbyn)
Bydd lle'r plentyn yn yr ysgol yn dechrau yn ystod tymor yr hydref ar ôl penblwydd y plentyn yn 4 oed.

Brodyr a chwiorydd
Siblingiaid (disgyblion sydd â brodyr neu chwiorydd hŷn, hanner brodyr neu chwiorydd, llys frodyr neu chwiorydd, neu brodyr neu chwiorydd mabwysiadol neu faeth ac yn byw ar yr un aelwyd ar adeg eu derbyn.

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (yr Eglwys yng Nghymru neu’r Eglwys Gatholig)
Ysgol a gynhelir a sefydlwyd gan gorff gwirfoddol (fel arfer yr Eglwys yng Nghymru neu’r Eglwys Gatholig). Mae ysgolion a gynorthwyir yn rheoli eu derbyniadau eu hunain a’u maes llafur Addysg Grefyddol ac yn cyflogi eu gweithwyr eu hunain.

Ysgol Wirfoddol a Reolir
Mae hon yn ysgol a gynhelir lle mae Addysg Grefyddol yn cael ei darparu yn unol â maes llafur cytunedig yr Awdurdod. Gellir cynnig rhywfaint o hyfforddiant enwadol.

Atodiad 3 Trefniadau Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer 2020/21

Cyngor Sir Penfro

Drefniadau Derbyn Ysgolion ar gyfer 2020/21

1. Polisi Derbyn

a) Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn, heblaw ar gyfer ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir lle mae'r corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn.

b) Gall rhieni fynegi blaenoriaeth ar gyfer ysgol ac mae'n rhaid i'r awdurdod derbyn ganiatáu'r dewis hwnnw oni bai y byddai gwneud hynny'n peryglu darparu addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau. Yn ei hanfod, os oes digon o leoedd ac adnoddau ar gael yn yr ysgol, bydd y disgybl yn cael lle. Dylai holl rieni darpar ddisgyblion fynegi blaenoriaeth drwy ddefnyddio system dderbyn ar-lein y Cyngor.

c) Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu hyd at nifer derbyn yr ysgol heb gymhwyso unrhyw amodau. Fodd bynnag, os oes mwy o geisiadau wedi'u derbyn erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd nac y sydd o leoedd, yna bydd y meini prawf gordanysgrifio canlynol, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio er mwyn dyrannu lleoedd mewn ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir:

1. Disgyblion sy'n Derbyn Gofal ar hyn o bryd neu a fu'n Derbyn Gofal gan awdurdodau yng Nghymru a Lloegr yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Plant 1989.
2. Disgyblion sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi'r ysgol.
3. Anghenion meddygol, seicolegol neu ddysgu ychwanegol eithriadol (**gweler nodyn a.**).
4. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol a fydd â brawd neu chwaer o oedran ysgol statudol yn yr ysgol ar yr adeg derbyn (**gweler nodyn b.).**
5. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd wedi mynychu ysgol fwydo (**gweler nodyn c**.).
6. Disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol a fydd â brawd neu chwaer o oedran ysgol statudol yn yr ysgol ar yr adeg derbyn (**gweler nodyn b.).**
8. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol sydd wedi mynychu ysgol fwydo (**gweler nodyn c.).**
9. Disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol.

Os yw'r nifer sydd wedi blaenoriaethu'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth ym mhob categori gordanysgrifio i frodyr a chwiorydd genedigaeth lluosog (h.y. efeilliaid, tripledi ac ati). Os yw'r plentyn olaf i gael ei dderbyn pan gyrhaeddir y Nifer Derbyn yn blentyn genedigaeth lluosog yna bydd yr Awdurdod yn derbyn y brawd/brodyr neu chwaer/chwiorydd eraill hefyd.

O ran y categorïau gordanysgrifio sy'n cynnwys maen prawf brawd neu chwaer (categorïau 4 a 7), os yw'r nifer sydd wedi blaenoriaethu'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion hynny sydd agosaf o ran oed at y brawd neu chwaer hŷn sydd eisoes yn yr ysgol (e.e. o ran derbyn i ysgol gynradd, byddai disgybl sydd â brawd/chwaer ym mlwyddyn 3 yn cael blaenoriaeth uwch na disgybl sydd â brawd/chwaer ym mlwyddyn 6; o ran derbyn i ysgol uwchradd byddai disgybl sydd â brawd/chwaer ym mlwyddyn 9 yn cael blaenoriaeth uwch na disgybl sydd â brawd/chwaer ym mlwyddyn 11).

Yn achos canlyniad cyfartal mewn unrhyw gategori, cynigir lleoedd i'r disgyblion sy'n byw agosaf at yr ysgol, sy'n cael ei fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf o giât yr ysgol agosaf sydd ar gael i'r man lle mae annedd breifat y disgybl yn cyfarfod â'r briffordd gyhoeddus.

Nodiadau

a. Anghenion Meddygol neu Seicolegol

Gall angen meddygol neu seicolegol fod yn berthnasol i'r plentyn neu eu rhieni. Er mwyn cael eu hystyried o dan y maen prawf hwn mae'n **rhaid** i rieni ddarparu tystiolaeth ategol annibynnol **ar yr adeg ymgeisio** sy'n nodi pam mai'r ysgol a ddewiswyd yw'r ysgol fwyaf addas i'r plentyn a'r anawsterau a fyddai'n cael eu hachosi pe byddai'n rhaid i'r plentyn fynychu ysgol wahanol.

Byddai tystiolaeth ategol a fyddai'n cael ei ystyried yn briodol yn cynnwys:

i) Llythyr neu adroddiad gan un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig canlynol: Ymgynghorydd Arbenigol, Paediatregydd Cymunedol, Seicolegydd, Seicolegydd Addysg, Seiciatrydd, Ffisiotherapydd, Therapydd Galwedigaethol. Mae'n rhaid i'r llythyr neu'r adroddiad fod wedi'i seilio ar wybodaeth y gweithiwr proffesiynol ei hun am gyflwr ac amgylchiadau'r plentyn/rhiant. Sylwer **NA** dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu i'r diben hwn.

ii) Llythyr neu adroddiad gan weithiwr cymdeithasol proffesiynol cofrestredig sy'n seiliedig ar eu gwybodaeth eu hunain am gyflwr ac amgylchiadau'r plentyn/rhiant.

Ni roddir blaenoriaeth o dan y maen prawf hwn os na chyflwynir y dystiolaeth ofynnol ar yr adeg ymgeisio.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'n rhaid i'r anghenion gael eu cadarnhau gan Wasanaeth Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol.

b. Brawd neu Chwaer

Mae hyn yn golygu brawd llawn/chwaer lawn, hanner brawd/chwaer neu lysfrawd/llyschwaer, neu blant wedi'u mabwysiadu neu blant maeth sy'n byw yn yr un cartref ar yr adeg ymgeisio.

c. Ysgol Fwydo

Ysgol fwydo yw ysgol gynradd sydd yn yr un 'clwstwr o ysgolion' ag ysgol uwchradd, neu ysgol fabanod sy'n bwydo ysgol iau.

2 Nifer Derbyn a'r Lleoedd sydd ar gael

Mae niferoedd derbyn wedi'u seilio ar reoliadau "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" ac maent yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Mae niferoedd derbyn ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir ar gyfer 2020/21 wedi'i hatodi isod.

3. Dyddiadau Derbyn i Ysgolion

Mae'r Llywodraeth wedi pennu dyddiadau sy'n rhaid i blant fod yn 5 oed er mwyn bod yn oedran ysgol gorfodol yn y tymor ysgol canlynol: y dyddiadau hyn yw 31 Awst, 31 Rhagfyr a 31 Mawrth.

Caiff pob disgybl sydd yn 4 oed ar 31 Awst 2020 neu cyn hynny ddechrau'n llawn amser yn y Dosbarth Derbyn o fis Medi 2020. Fodd bynnag, gall rhieni ohirio'r dyddiad dechrau tan y tymor ar ôl i'w plentyn gyrraedd oedran ysgol gorfodol, e.e.

- gall plentyn sy'n 5 oed rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2019 ddechrau yn nhymor y gwanwyn 2020
- gall plentyn sy'n 5 oed rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2020 ddechrau yn nhymor yr haf 2020
- gall plentyn sy'n 5 oed rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2020 ddechrau yn nhymor yr hydref 2020 (sylwer y bydd y plentyn, yn yr achos hwn, yn ymuno ar ddechrau Blwyddyn 1 yn hytrach na'r dosbarth Derbyn).

Mae gan lawer o ysgolion ddosbarthiadau meithrin y gall disgyblion ymuno â nhw'n rhan amser pan fyddant yn 3 oed. Mae'r dyddiadau cymhwyso uchod hefyd yn berthnasol i'r derbyniadau hyn a byddant yn pennu pa dymor y gall y plentyn ddechrau. Gall plant a anwyd rhwng 1 Medi a 31 Mawrth fynychu darpariaeth feithrin yn llawn amser yn ystod y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

5. Ceisiadau am le mewn ysgol

Dylid gwneud ceisiadau ar-lein trwy wefan y Cyngor https://www.sir-benfro.gov.uk am leoedd ysgol mewn unrhyw un o'r categorïau canlynol. Anogir rhieni i ddarllen y Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni a rhaid iddynt gadarnhau bod ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn y maent yn gwneud cais amdano, cyn cwblhau'r ffurflen ar-lein. Dylid nodi bod ysgolion yn cael eu hannog i gynorthwyo rhieni i gwblhau'r ffurflen ar-lein os nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur gartref. Mewn amgylchiadau arbennig, er engraifft pan nad oes cyfeiriad ebost gan rieni, darperir ffurflenni papur lle bo angen.

Gall rhieni ganfod enw a lleoliad eu hysgol leol trwy roi eu cod post cartref yn y cyfleuster chwilio "Chwilio Am Ysgol Yn Eich Ardal Chi" ar y wefan. Ar ôl dewis y cyfeiriad cywir ar y sgrin ddilynol, dangosir rhestr o wasanaethau cyfagos; bydd clicio ar "Ysgolion" yn dangos rhestr o'r holl ysgolion dalgylch ar gyfer y cyfeiriad dan sylw. Gellir cael gwybodaeth am ddalgylchoedd ysgolion hefyd o adran Ysgolion a Dysgu'r wefan ac yna dilyn yr adran Ysgolion. Dangosir manylion yr holl ysgolion, yn eu clystyrau, gan gynnwys mapiau dalgylch.

b) Bydd ymgeiswyr yn derbyn canlyniad eu cais yn ysgrifenedig; bydd hwn ar ffurf e-bost awtomataidd fel arfer. Pan fo cais yn aflwyddiannus, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod y rheswm am y penderfyniad ac am eu hawl i apelio i banel apeliadau annibynnol, ond nid oes hawl i apelio ynglŷn ag addysg feithrin.

i. Derbyn i Addysg Feithrin

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am le mewn dosbarth meithrin yn ystod 2020 fydd 30 Ebrill 2019. Bydd y dyddiad cau hwn yn berthnasol i geisiadau ar gyfer pob disgybl fydd yn cyrraedd 3 oed rhwng 1 Medi 2019 a 31 Awst 2020.

Bydd yr holl geisiadau a dderbynnir ar gyfer ysgol benodol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd ar ôl y dyddiad cau. Bydd y meini prawf gordanysgrifio yn cael eu hystyried os oes mwy o geisiadau na sydd o lefydd ar gael. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau ar sail y dyddiad y'u derbyniwyd.

Rhoddir gwybod i rieni am ganlyniad eu cais erbyn 31 Gorffennaf 2019. Bydd disgyblion yn cael eu derbyn yn dymhorol ar sail oedran y plentyn a threfniadau dosbarth meithrin yr ysgol. Rhoddir gwybod i'r rhieni am ba dymor y gall eu plentyn ddechrau.

ii. Derbyn i Addysg Gynradd – Dosbarth Derbyn

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am le mewn dosbarth Derbyn ym mis Medi 2020 fydd 31 Ionawr 2020. Bydd y dyddiad cau hwn yn berthnasol i geisiadau ar gyfer pob disgybl fydd yn cyrraedd 5 oed rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021, hyd yn oed os yw rhieni'n dymuno gohirio mynediad dyddiad dechrau hyd nes bod eu plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol fel y disgrifir uchod.

Bydd yr holl geisiadau a dderbynnir ar gyfer ysgol benodol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd ar ôl y dyddiad cau. Bydd y meini prawf gordanysgrifio yn cael eu hystyried os oes mwy o geisiadau na sydd o lefydd ar gael. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau ar sail y dyddiad y'u derbyniwyd.

Rhoddir gwybod i rieni am ganlyniad eu cais ar ddyddiad y cynnig cyffredin, sef 16 Ebrill 2020.

Ni fydd gan blant sy'n mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol hawl awtomatig i le yn nosbarth Derbyn yr ysgol honno. **Bydd angen i rieni wneud cais am le yn yr un modd ag ymgeiswyr eraill.**

iii. Derbyn i Addysg Uwchradd

Gwahoddir rhieni disgyblion blwyddyn 6 i fynegi eu dewis am le mewn ysgol uwchradd yn ystod tymor yr hydref cyn i'w plant drosglwyddo. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am le mewn ysgol uwchradd ym mis Medi 2020 fydd 20 Rhagfyr 2019.

Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu yn ystod tymor y gwanwyn 2020. Bydd y meini prawf gordanysgrifio yn cael eu hystyried os oes mwy o geisiadau na sydd o lefydd ar gael mewn ysgol benodol.

Rhoddir gwybod i rieni am ganlyniad eu cais ar y dyddiad cynnig cyffredin, sef 1 Mawrth 2020.

iv. Derbyn i Addysg Ysgol Ganol (3-16)

Yn achos ceisiadau am lefydd i'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, gweler y Paragraffau i a ii uchod.

Yn amodol ar ddewis y rhieni, bydd y disgyblion yn aros mewn ysgolion o'r fath hyd nes y byddant yn dod i ddiwedd oedran ysgol statudol.

Ni fydd yn ofynnol i ddisgyblion sydd ar y gofrestr ym Mlwyddyn 6 mewn ysgolion canolradd wneud cais am drosglwyddo i elfen uwchradd ysgolion o'r fath.

6. Ceisiadau Hwyr

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl yr holl geisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau penodedig oni bai fod rhesymau eithriadol dros gyflwyno'r cais yn hwyr, sy'n rhaid eu hesbonio wrth gyflwyno'r cais.

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar sail y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig, gan ystyried niferoedd presennol/darpar ddisgyblion ar yr adeg ymgeisio.

7. Rhestrau Aros

Os na fydd yr Awdurdod yn gallu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol o'i ddewis yn ystod y cylch derbyn arferol, oherwydd gordanysgrifio, rhoddir eu henw ar restr aros tan 30 Medi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol. Rhoddir blaenoriaeth am unrhyw leoedd sy'n dod ar gael yn ôl y meini prawf gordanysgrifio ac nid yn ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cais am le yn wreiddiol.

Ar gyfer ceisiadau a dderbynnir y tu allan i'r cylch derbyn arferol, mae'r enwau'n aros ar restrau aros tan ddiwedd tymor yr haf y flwyddyn academaidd y gofynnwyd am y lle.

8. Newid yr Ysgol Ddewisol

Os newidir yr ysgol ddewisol ar ôl gwneud y cais gwreiddiol, rhaid nodi hyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Derbyn. Os bydd newid o'r fath yn digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, bydd yn cael ei drin fel cais hwyr.

9. Derbyn i Ysgol Portfield a Chanolfannau Adnoddau Dysgu mewn Ysgolion (unedau cysylltiedig)

Ymdrinnir â derbyniadau i Ysgol Arbennig Portfield a Chanolfannau Adnoddau Dysgu dynodedig sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd gan Wasanaeth Cynhwysiant yr Awdurdod ar sail y lefel o anawsterau dysgu ac anghenion cymhleth a aseswyd. **Nid** yw'r meini prawf uchod yn berthnasol.

10. Trosglwyddo Rhwng Ysgolion

Gall rhieni ofyn am drosglwyddo ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, oni bai bod y trosglwyddiad o ganlyniad i newid cyfeiriad, dim ond ar ddechrau tymor bydd yr Awdurdod yn caniatáu trosglwyddo o un ysgol yn Sir Benfro i un arall fel arfer. Mae pob cais am drosglwyddo yn ddarostyngedig i weithdrefnau derbyn arferol a bod llefydd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd.

Os gofynnir am drosglwyddo ar unwaith a hynny am reswm nad yw'n ymwneud â newid cyfeiriad, gweithredir protocol sy'n cynnwys y Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion. Gwahoddir rhieni i drafod y cais am drosglwyddo gyda Swyddog Cymorth Disgyblion a fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu trosglwyddo ar unwaith. Os na fydd y Swyddog Cymorth Disgyblion yn cymeradwyo trosglwyddo ar unwaith, bydd y trosglwyddiad yn digwydd ar ddechrau'r tymor canlynol yn unig.

Mae taflen ganllaw ar gyfer rhieni sydd am drosglwyddo'u plentyn (Newid Ysgolion - canllaw i rieni) ar gael gan yr ysgol neu'r Swyddog Derbyn ac ar-lein yn www.sir-benfro.gov.uk

Ar ôl cytuno ar gais i drosglwyddo ysgol a hysbysu'r rhieni yn ysgrifenedig, bydd angen i rieni ymateb i'r e-bost er mwyn derbyn y lle. Os bydd amgylchiadau'n newid a bod angen lle mewn ysgol wahanol, neu'r ysgol flaenorol, rhaid gwneud cais newydd. Dylai rhieni nodi y gallai'r lle yn yr ysgol y mae eu plentyn yn ei gadael eisoes fod wedi'i neilltuo i rywun arall.

11. Gohirio Mynediad i Ddosbarthiadau Derbyn

Gall rhieni sy'n gwneud cais am le i'w plentyn mewn dosbarth derbyn (yn ystod neu ar ôl y rownd dderbyn arferol ar gyfer y lleoedd hyn) ofyn am i'r dyddiad dechrau gael ei ohirio

hyd nes bod eu plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol (y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed). Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr awdurdod derbyn yn cadw'r lle y cytunwyd arno ar gyfer y plentyn fel nad yw'r lle ar gael i blentyn arall.

12. Ceisiadau Cynnar

Gall rhieni wneud cais am le i'w plentyn mewn dosbarth meithrin ar unrhyw adeg o'u genedigaeth. Bydd ceisiadau a dderbynnir cyn y rowndiau derbyn arferol (yn seiliedig ar ddyddiad geni'r plentyn) yn cael eu cydnabod, eu cadw ar ffeil a'u prosesu ar yr adeg briodol. **Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau cynnar.**

13. Cadw Lleoedd

Ni fydd lleoedd yn cael eu cadw am fwy nag un tymor y tu allan i'r rownd dderbyn arferol. Gall rhieni sy'n gofyn am ddyddiad derbyn yn y dyfodol (er enghraifft, oherwydd eu bod yn symud i'r ardal) wneud cais am hynny dymor yn unig cyn y bydd angen y lle e.e. os oes angen lle yn nhymor y gwanwyn, gellir cyflwyno'r cais ar ddechrau'r tymor yr hydref blaenorol a dim cynharach na hynny.

Bydd ceisiadau a dderbynnir mwy na thymor cyn bod angen y lle yn cael eu cydnabod a rhoddir gwybod i'r rhieni y bydd y cais yn cael ei brosesu ar yr adeg briodol.

14. Apeliadau

Bydd apeliadau yn erbyn penderfyniadau derbyn yn cael eu clywed gan banel apeliadau annibynnol. Dylid anfon llythyrau apêl at y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion o fewn 10 niwrnod gwaith i ddyddiad yr hysbysiad bod y cais am le yn aflwyddiannus. Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Penfro sy'n trefnu i'r panel apeliadau gwrdd, a bydd apeliadau'n cael eu clywed o fewn 30 niwrnod ysgol o'r dyddiad cau penodedig ar gyfer derbyn apeliadau. Yn ystod gwyliau'r haf, bydd yr apeliadau'n cael eu clywed o fewn 30 niwrnod gwaith o dderbyn yr apêl yn ysgrifenedig.

15. Fforwm Derbyn

Mae Fforwm Derbyn Sir Benfro yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod materion derbyn lleol ac i fonitro cydymffurfiad yr Awdurdod Derbyn â Chod Ymarfer Derbyn i Ysgolion. Cynrychiolir penaethiaid, llywodraethwyr, rhieni ac awdurdodau esgobaethol. Cyhoeddir cylch gorchwyl a chofnodion cyfarfodydd y fforwm ar-lein yn https://www.sir-benfro.gov.uk/mynediad-i-ysgolion/fforwm-derbyn-sir-benfro

16. Ymgynghori

Mae gan bob ysgol gymunedol a gwirfoddol a reolir yr hawl i roi eu barn ynglŷn â threfniadau derbyn pob awdurdod derbyn yn Sir Benfro. Mae hawl ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir i wrthwynebu'r trefniadau hyn wedi'i chyfyngu i wrthwynebiad i nifer derbyn eu hysgol eu hunain ac i'r trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Gall awdurdodau derbyn ysgolion a gynorthwyir gael eu heithrio o ymgynghori am hyd at ddwy flynedd ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni.

17. Gwybodaeth Ychwanegol

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Huw Jones – Swyddog Proffesiynol – Cynllunio Lleoedd a Derbyniadau
Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP
Rhif ffôn: 01473 764551
e-bost: derbyniadau@sir-benfro.gov.uk

TREFNIADAU DERBYNIADAU I YSGOLION 2020-21

Nif.	YSGOL	Nifer Derbyn 2020/21
2203	SAGESTON CP	17
2209	YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL EGLWYSWRW	20
2212	GOODWICK	19
2214	FENTON CP	50
2220	JOHNSTON CP	30
2222	LAMPHEY PRIMARY	29
2223	YSGOL GYMUNEDOL BRYNCONIN	12
2228	HOOK CP	15
2231	YSGOL LLANYCHLLWYDOG	4
2233	YSGOL GYMUNEDOL MAENCLOCHOG	16
2242	NARBERTH CP	47
2243	YSGOL BRO INGLI	15
2250	PUNCHESTON CP	10
2253	YSGOL LLANDUDOCH	18
2254	WOLFSCASTLE CP	5
2258	SAUNDERSFOOT CP	40
2260	STEPASIDE CP	28
2261	TEMPLETON CP	15
2266	TAVERNSPITE CP	29
2270	YSGOL GYMUNEDOL CROESGOCH	17
2271	BROAD HAVEN PRIMARY	17
2273	ROCH CP	25
2384	COASTLANDS SCHOOL/ YSGOL Y GLANNAU	15
2385	YSGOL CLYDAU	10
2386	PEMBROKE DOCK COMMUNITY SCHOOL	89
2387	MONKTON PRIORY CP	26
2388	YSGOL GELLI AUR/GOLDEN GROVE COMMUNITY SCHOOL	E40 / W15
2389	YSGOL GLANNAU GWAUN	E12 / W21
2390	YSGOL Y FRENNI	30
2391	PRENDERGAST COMMUNITY SCHOOL	64
2392	PENNAR COMMUNITY SCHOOL	34
2393	NEYLAND COMMUNITY SCHOOL	47
2395	YSGOL HAFAN Y MÔR	30
2396	MILFORD HAVEN COMMUNITY PRIMARY SCHOOL	96

Nif.	YSGOL	Nifer Derbyn 2020/21
2397	WALDO WILLIAMS PRIMARY SCHOOL	46
3035	CILGERRAN CHURCH IN WALES VC	19
3036	COSHESTON VC	8
3040	CLEDDAU REACH VC	34
3042	MANORBIER CHURCH IN WALES VC	12
3050	SPITTAL CHURCH IN WALES VC	25
3055	ST FLORENCE CHURCH IN WALES VC	13
3058	YSGOL GER Y LLAN	21
3059	TENBY CHURCH IN WALES VC PRIMARY SCHOOL	45
3060	PENRHYN CHURCH IN WALES VC SCHOOL	17
3061	GELLISWICK CHURCH IN WALES VC SCHOOL	68
5500	YSGOL CAER ELEN	45 Cynradd 120 Uwchradd
4031	YSGOL BRO GWAUN	105
4035	THE GREENHILL SCHOOL	212
4038	YSGOL HARRI TUDUR / HENRY TUDOR SCHOOL	240
4063	MILFORD HAVEN SCHOOL	212
4064	YSGOL Y PRESELI	163
4512	HAVERFORDWEST HIGH VC SCHOOL	325

Atodiad 4 Trefniadau derbyn a meini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

Ysgol GG St Mark, Hwlffordd

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yw derbyn plant i'r ysgol, a dylid gwneud ceisiadau ar-lein trwy ddefnyddio gwefan y Cyngor.

Y Nifer Derbyn ar gyfer yr ysgol yw 20, a lle nad yw nifer y ceisiadau'n uwch na'r nifer hon, yna derbynnir pob ymgeisydd. Pe bai mwy na'r nifer uchod o geisiadau'n cael eu derbyn ar gyfer grŵp blwyddyn unigol, bydd disgyblion yn cael eu derbyn ar sail y meini prawf gordanysgrifio canlynol, wedi'u cymhwyso mewn trefn blaenoriaeth:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal
2. Chwiorydd a brodyr plant sydd eisoes yn yr ysgol.
3. Plant sy'n byw yng nghymuned Pont Fadlen.
4. Plant aelodau mewn gair a gweithred yr Eglwys yng Nghymru (dylai'r cais gael ei ategu gan ddatganiad Offeiriad y Plwyf).
5. Plant rhieni o enwadau eraill sy'n dymuno i'w plentyn gael addysg ysgol eglwysig (dylai'r cais gael ei ategu gan ddatganiad eu Harweinydd Ffydd).
6. Plant rhieni sy'n arddel crefyddau eraill, sy'n dymuno i'w plentyn gael addysg Ysgol yr Eglwys Anglicanaidd.
7. Plant rhieni sy'n dymuno i'w plentyn fynychu Ysgol St Mark.

Yn achos ymgeiswyr cyfartal, cynigir y llefydd i'r disgyblion sy'n byw agosaf at yr ysgol, wedi'I fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf o'r gât ysgol agosaf sydd ar gael hyd at y man lle mae annedd preifat y disgybl yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus.

Mae gan rieni y mae eu cais am le i'w plant yn aflwyddiannus yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â'u derbyn. Dylai'r apêl hon fod yn ysgrifenedig a dylid ei hanfon at y Pennaeth. Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl annibynnol, a sefydlwyd gan yr Esgobaeth, y bydd ei benderfyniad yn rhwymol ar bob parti. Gweler yr Rhan o'r enw "Beth yw fy hawl i apelio"? i gael mwy o wybodaeth.

Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir St Marks yn gweithredu rhestr aros ar gyfer rhieni pan na fydd yn gallu cynnig lle yn ystod y cylch derbyn arferol oherwydd gordanysgrifio. Mae'r telerau a gymhwysir i restrau aros yr un fath â thelerau'r Cyngor Sir, fel a ddisgrifir yn yr Rhan o'r enw "Sut mae llefydd ysgol yn cael eu dyrannu?"

Bydd ceisiadau am lefydd a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig, yn cael eu hystyried gan yr ysgol ar ôl yr holl geisiadau hynny a dderbyniwyd mewn pryd. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail y meini prawf gordanysgrifio uchod, a chan ystyried nifer y disgyblion.

Ysgol GG St Oswald, Jeffreyston

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yw derbyn plant i'r ysgol, a dylid gwneud ceisiadau ar-lein trwy ddefnyddio gwefan y Cyngor.

Y Nifer Derbyn ar gyfer yr ysgol yw 17, a lle nad yw nifer y ceisiadau'n uwch na'r nifer hon, yna derbynnir pob ymgeisydd. Pe bai mwy na'r nifer uchod o geisiadau'n cael eu derbyn ar gyfer grŵp blwyddyn unigol, bydd disgyblion yn cael eu derbyn ar sail y meini prawf gordanysgrifio canlynol, wedi'u cymhwyso mewn trefn blaenoriaeth:

a) Plant sy'n derbyn gofal sy'n gymunwyr y ffydd anglicanaidd
b) Plant sy'n derbyn gofal
c) Plant sydd â brodyr neu chwiorydd yn yr ysgol ar y dyddiad derbyn arfaethedig
ch) Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol
d) Plant o deuluoedd sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n gymunwyr rheolaidd mewn Eglwys Anglicanaidd yn y dalgylch
dd) Plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch fel a ddiffinnir yn 2 uchod, sy'n gymunwyr rheolaidd mewn Eglwys Anglicanaidd
e) Plant o deuluoedd o enwadau Cristnogol eraill sy'n byw y tu allan i'r dalgylch y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael addysg mewn ysgol Eglwys Anglicanaidd
f) Plant o deuluoedd sy'n byw y tu allan i'r dalgylch fel a ddiffinnir yn 2 uchod, nad ydynt yn addolwyr Cristnogol gweithgar ond y mae eu rhieni'n dymuno iddynt gael addysg mewn Ysgol Eglwys Anglicanaidd.

Yn achos ymgeiswyr cyfartal, cynigir y llefydd i'r disgyblion sy'n byw agosaf at yr ysgol, wedi'i fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf o'r gât ysgol agosaf sydd ar gael hyd at y man lle mae annedd preifat y disgybl yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus.

Mae gan rieni y mae eu cais am le i'w plant yn aflwyddiannus yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â'u derbyn. Dylai'r apêl hon fod yn ysgrifenedig a dylid ei hanfon at y Pennaeth. Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl annibynnol, y bydd ei benderfyniad yn rhwymol ar bob parti. Gweler yr Rhan o'r enw "Beth yw fy hawl i apelio"? i gael mwy o wybodaeth.

Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir St Oswald yn gweithredu rhestr aros ar gyfer rhieni pan na fydd yn gallu cynnig lle yn ystod y cylch derbyn arferol oherwydd gordanysgrifio. Mae'r telerau a gymhwysir i restrau aros yr un fath â thelerau'r Cyngor Sir, fel a ddisgrifir yn yr Rhan o'r enw "Sut y gallaf ychwanegu enw fy mhlentyn at y Rhestr Aros?"

Bydd ceisiadau am lefydd a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig, yn cael eu hystyried gan yr ysgol ar ôl yr holl geisiadau hynny a dderbyniwyd mewn pryd. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail y meini prawf gordanysgrifio uchod, a chan ystyried nifer y disgyblion presennol/darpar ddisgyblion. Mae'r hawl i apelio yn gymwys i geisiadau hwyr hefyd.

Ysgol WG St Aidan's, Cas-wis

Bydd y polisi hwn yn berthnasol i derbyniadau yn ystod 2019- 21

Y Corff Llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol hon. Adnewyddir y polisi hwn yn flynyddol gyda holl ysgolion cyfnod cynradd Sir Benfro – ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a'r ysgolion gwirfoddol, cymunedol 3-11 a'r ddwy ysgol 3-16, y Cyfarwyddwr Esgobaethol a gydag Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin a Cheredigion fel rhan o'r broses ymgynghori.

Datblygwyd ein polisi derbyn i sicrhau system deg a chyson o dderbyn disgyblion i'n hysgol, yn enwedig os yw lleoedd yn debygol o fod yn gyfyngedig oherwydd bod y nifer derbyn o 17 wedi ei gyrraedd.

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Sant Aeddan sy'n gwasanaethu'r gymuned o fewn plwyfi Llawhaden, Dwyrain Waltwn, Heol Clarbeston, Slebets a Chas-wis ac mae'r polisi derbyn yn adlewyrchu hyn yn ei restr o feini prawf yn nhrefn blaenoriaeth.

Os bydd gordanysgrifio, rhoddir y flaenoriaeth i'r disgyblion yn y drefn ganlynol:

1. Unrhyw blant a nodwyd ar gofrestr y Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) ac unrhyw blant oedd gynt yn LAC
2. Plant o blwyfi Llawhaden, Dwyrain Waltwn, Heol Clarbeston, Slebets a Chas-wis.
3. Plant â brodyr neu chwiorydd, boed yn blant maeth, mabwysiedig neu sy'n byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad, sy'n mynychu'r ysgol y cynigir derbyn plant iddi.
4. Plant o deuluoedd y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Eglwys Anglicanaidd.
5. Plant o deuluoedd mewn enwadau Cristnogol eraill y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn Ysgol Eglwys Anglicanaidd.
6. Os bydd mwy nag un yn cynnig am yr un lle, cynigir y lle i'r ddisgybl sy'n byw agosaf at yr ysgol, a fesurir yn ôl y pellter byrraf o'r giât ysgol agosaf i'r pwynt lle mae annedd breifat y disgybl yn cwrdd â'r ffordd fawr.

I ddibenion derbyn i'r ysgol, dyddiadau dechrau'r tymhorau yw'r 1af o Ionawr, y 1af o Ebrill a'r 1af o Fedi. Nid oes rhaid, fodd bynnag, i addysg orfodol ddechrau tan y tymor yn dilyn pumed pen-blwydd y plentyn.

Yr oedran arferol ar gyfer derbyn i'r ysgol yn Sir Benfro, mewn ysgol fel Sant Aeddan sydd â darpariaeth feithrin, yw dechrau'r tymor yn dilyn trydydd pen-blwydd y plentyn.

Mae dyddiadau cau ar gyfer derbyn yn glynu at yr amserlen ceisiadau am dderbyniad fel y cafodd ei chyhoeddi gan awdurdod derbyn Cyngor Sir Penfro.

Apeliadau

Os gwrthodir derbyn plentyn caiff y rhiant, o fewn 14 diwrnod, apelio yn erbyn y penderfyniad i Banel wedi ei greu i'r pwrpas hwnnw yn unol â darpariaethau'r Deddfau Addysg. Rhoddir gwybodaeth sut i apelio gan y Pennaeth ar adeg y penderfyniad gwreiddiol. Rhaid cyflwyno pob apêl i Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Sant Aeddan. Nid oes hawl i apelio mewn perthynas â derbyniadau meithrin.

Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi VA School, Tyddewi

Trefniadau derbyn a meini prawf gordanysgrifio

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yw derbyn plant i'r ysgol, a dylid gwneud ceisiadau ar-lein trwy ddefnyddio gwefan Cyngor Sir Penfro.

Y Nifer Derbyn ar gyfer yr ysgol yw 21 ar gyfer y Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 a 60 ar gyfer Blynyddoedd 7-11 a lle nad yw nifer y ceisiadau'n uwch na'r nifer hon, yna derbynnir pob ymgeisydd. Pe bai mwy na'r nifer uchod o geisiadau'n cael eu derbyn ar gyfer grŵp blwyddyn unigol, bydd disgyblion yn cael eu derbyn ar sail y meini prawf gordanysgrifio canlynol, wedi'u cymhwyso mewn trefn blaenoriaeth:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal
2. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol
3. Plant sydd â chwiorydd a brodyr sydd eisoes yn yr ysgol ar yr adeg derbyn. (Yn cynnwys hanner chwiorydd a brodyr, a phlant sy'n byw yn yr un cartref)
4. Plant o enwadau Cristnogol sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael addysg ysgol eglwysig. (Gyda llythyr ategol gan eu hoffeiriad neu eu gweinidog)
5. Plant rhieni sy'n dymuno i'w plentyn gael addysg Ysgol yr Eglwys Anglicanaidd.

Lle mae'r flaenoriaeth yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth o dan bob categori gordanysgrifio i frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog (h.y. gefeilliaid, tripledi ac ati). Os yw'r plentyn olaf i'w dderbyn hyd at y Nifer Derbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd yr ysgol yn derbyn y brawd/chwaer arall neu'r brodyr/chwiorydd eraill hefyd.

Yn achos canlyniad cyfartal, cynigir lleoedd i ddisgyblion sy'n byw agosaf i'r ysgol, a fesurir yn ôl y pellter cerdded byrraf o'r gât ysgol agosaf sydd ar gael i'r pwynt lle mae annedd preifat y disgybl yn cyfarfod â'r briffordd.

Mae gan rieni y mae eu cais am le i'w plant yn aflwyddiannus yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â'u derbyn. Dylai'r apêl hon fod yn ysgrifenedig a dylid ei hanfon at y Pennaeth. Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl annibynnol y bydd ei benderfyniad yn rhwymol ar bob parti. Gweler yr adran o'r enw "Beth yw fy hawl i apelio"? yng nghyhoeddiad y Cyngor "Gwybodaeth i Rieni" i gael mwy o wybodaeth.

Mae Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi yn gweithredu rhestr aros ar gyfer rhieni pan na fydd yn gallu cynnig lle yn ystod y cylch derbyn arferol oherwydd gordanysgrifio. Mae'r telerau a gymhwysir i restrau aros yr un fath â thelerau'r Cyngor Sir, fel y disgrifir yn yr adran o'r enw "Sut mae llefydd ysgol yn cael eu dyrannu?" yn llyfryn y Cyngor Sir *'Gwybodaeth i Rieni'.*

Bydd ceisiadau am lefydd a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried gan yr ysgol ar ôl yr holl geisiadau hynny a dderbyniwyd mewn pryd. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail y meini prawf gordanysgrifio uchod, a chan ystyried nifer y disgyblion presennol/darpar ddisgyblion. Mae'r hawl i apelio hefyd yn berthnasol i geisiadau hwyr.

Ysgol Gatholig yr Enw Sanctaidd, Abergwaun

Mae'r Enw Sanctaidd yn Ysgol Gynradd Gatholig yn Esgobaeth Mynyw. Awdurdod Addysg Lleol Sir Benfro sy'n ei chynnal.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am benderfynu ynglŷn â'r polisi sy'n berthnasol i dderbyn disgyblion i'r ysgol. Mae wedi ei gyfarwyddo ar gyfer y cyfrifoldeb hwn gan:

a) gofynion y gyfraith.
b) cyngor Ymddiriedolwyr yr Esgobaeth ynglŷn â natur a diben ei gyfrifoldebau a chyflawni ei Weithred Ymddiriedolaeth ac Offeryn Llywodraethu.
c) ei gyfrifoldeb tuag at yr ysgol a'r gymuned Gatholig y mae'n ei gwasanaethu.
ch) cymeriad Catholig yr ysgol a'i Datganiad Cenhadaeth.

Mae ethos yr ysgol hon yn Gatholig. Sefydlwyd yr ysgol gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant teuluoedd Catholig. Gofynnwn I bob rhiant sy'n gwneud cais am le yma gefnogi a pharchu'r ethos hwn, ei bwysigrwydd i gymuned yr ysgol a'r addysg y mae hi'n ei darparu. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni nad ydynt o'r un ffydd â'r ysgol hon i wneud cais a chael eu hystyried am le yma.

Nifer Derbyn yr Ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym mis Medi 2018 yw 18. Os bydd nifer yr ymgeiswyr yn fwy na'r nifer derbyn, bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth I geisiadau yn unol â'r meini prawf sydd wedi eu rhestru ar yr amod y rhoddir gwybod i'r llywodraethwyr am y cais hwnnw cyn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau.

Bydd rhaid gwneud ceisiadau am le yn yr ysgol ar -lein trwy ddefnyddio gwefan y Cyngor a hynny erbyn y 30 Ebrill fan bellaf yn y flwyddyn cyn derbyn.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi dirprwyo cyfrifoldeb am benderfynu ynghylch derbyniadau i'w Bwyllgor Derbyniadau, a fydd yn ystyried pob cais yr un pryd ac wedi'r dyddiad cau ar gyfer derbyniadau, wedi eu gwneud yn unol â'r meini prawf sydd wedi eu rhestru.

Os bydd cais am dderbyn wedi ei wrthod gan y Corff Llywodraethol, gall rhieni wneud apêl i Banel Apeliadau. Mae'n rhaid anfon yr apêl hon yn ysgrifenedig at glerc y Llywodraethwyr yn yr ysgol o fewn 14 o ddyddiau (10 diwrnod gwaith) wedi'r gwrthodiad. Mae'n rhaid i rieni roi rhesymau dros apelio yn ysgrifenedig a bydd rhaid i'r Llywodraethwyr dderbyn penderfyniad y panel apeliadau.

Meini prawf ar gyfer mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael
Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethol yn gweithredu'r meini prawf 'mwy o geisiadau na'r nifer sydd ar gael' canlynol yn nhrefn y flaenoriaeth.

1. Pob plentyn Catholig sydd wedi ei fedyddio ac yn byw yn nalgylch yr ysgol.
2. Pob plentyn sydd wedi ei fedyddio yn yr Eglwys Uniongred ac sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
3. Ymgeiswyr gyda chwiorydd neu frodyr ar y gofrestr yn y flwyddyn dderbyn sydd wedi eu bedyddio'n Gatholigion.
4. Ymgeiswyr gyda chwiorydd neu frodyr ar y gofrestr yn y flwyddyn dderbyn nad ydynt yn Gatholigion.

5. Disgyblion Catholig o'r tu allan i'r dalgylch.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill.
7. Plant y mae eu rhieni yn dymuno addysg Gatholig

Mae gan bob ysgol ddyletswydd i dderbyn plant gyda Datganiad o Anghenion Addysgol pan yw'r ysgol wedi ei henwi yn y datganiad.

Ym mhob dosbarthiad uchod rhoddir blaenoriaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal.

Os bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o ran nifer y ceisiadau sydd wedi eu gwneud o dan unrhyw ddosbarthiad uchod, yna bydd y Pwyllgor Derbyniadau yn cynnig lleoedd yn gyntaf i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol, yn ôl y daith gerdded fyrraf ar heolydd cyhoeddus o ddrws blaen y plentyn i brif fynedfa'r ysgol.

Ysgol Gatholig Sant Teilo, Dinbych-y-pysgod

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yw derbyn plant i'r ysgol, a dylid gwneud ceisiadau ar-lein trwy ddefnyddio gwefan y Cyngor.

Y Nifer Derbyn ar gyfer yr ysgol yw 13, a lle nad yw nifer y ceisiadau'n uwch na'r nifer hon, yna derbynnir pob ymgeisydd. Pe bai mwy na'r nifer uchod o geisiadau'n cael eu derbyn ar gyfer grŵp blwyddyn unigol, bydd disgyblion yn cael eu derbyn ar sail y meini prawf gordanysgrifio canlynol, wedi'u cymhwyso mewn trefn blaenoriaeth:

1. Plant wedi'u bedyddio'n Gatholigion 'Sy'n Derbyn Gofal', yng ngofal yr awdurdod lleol, yn y plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu.
2. Plant sy'n Derbyn Gofal sydd yng ngofal awdurdod lleol (plant mewn gofal) neu y mae'n darparu llety iddynt (e.e. plant gyda rhieni maeth).
3. Plant wedi'u bedyddio'n Gatholigion y mae eu teuluoedd yn byw ym Mhlwyf Holyrood a Theilo Sant.
4. Plant eraill wedi'u bedyddio'n Gatholigion. Bydd angen Cadarnhad o Fedyddio.
5. Plant wedi'u bedyddio'n Gatholigion gyda brawd neu chwaer yn yr ysgol yr amser y maen debygol y derbynnir hwy.
6. Plant o Enwadau Cristnogol eraill.
7. Plant nad ydynt yn Gatholigion sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol adeg y derbyn.
8. Plant o grefyddau eraill y mae eu rhieni yn dymuno addysg Gatholig.
9. Plant nad ydynt yn Gatholigion y mae eu rhieni yn dymuno addysg Gatholig ar gyfer eu plentyn.
10. Plant y mae'r AALl wedi gofyn yn benodol am le iddynt yn yr ysgol.

Yn achos ymgeiswyr cyfartal, cynigir y llefydd i'r disgyblion sy'n byw agosaf at yr ysgol. Bydd y pellter yn cael ei fesur o ddrws ffrynt mynediad y dderbynfa I ddrws ffrynt tŷ neu fflat yr ymgeisydd.

Yn achos plentyn y mae ei rieni yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd, y rhiant sydd â'r cyfrifoldeb pennaf yn ystod yr wythnos ysgol ac y mae ei breswylfan yn agosach at yr ysgol fydd y ffactor penderfynu wedyn. Bydd rhaid darparu llythyr gan y rhieni i gadarnhau'r ffaith honno.

Mae gan rieni y mae eu cais am le i'w plant yn aflwyddiannus yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â'u derbyn. Dylai'r apêl hon fod yn ysgrifenedig a dylid ei hanfon at y Pennaeth. Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl annibynnol, y bydd ei benderfyniad yn rhwymol ar bob parti. Gweler yr Rhan o'r enw "Beth yw fy hawl i apelio"? i gael mwy o wybodaeth.

Ysgol Gatholig Mary Immaculate, Hwlffordd

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yw derbyn plant i'r ysgol, a dylid gwneud ceisiadau ar-lein trwy ddefnyddio gwefan y Cyngor. Bydd fersiwn llawn o'r Trefniadau Mynediad yn cael ei anfon i rieni pan ofynnir am prospectws.

Y Nifer Derbyn ar gyfer yr ysgol yw 29, a lle nad yw nifer y ceisiadau'n uwch na'r nifer hon, yna derbynnir pob ymgeisydd. Pe bai mwy na'r nifer uchod o geisiadau'n cael eu derbyn ar gyfer grŵp blwyddyn unigol, bydd disgyblion yn cael eu derbyn ar sail y meini prawf gordanysgrifio a rhestrir islaw. Ymhob pob categori, bydd Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael blaenoriaeth. Bydd angen Cadarnhad Bedydd (tystysgrif bedydd) gan y plwyf ar gyfer categorïau 1, 2, 3 + 5.

1. Plant sydd wedi eu bedyddio'n Gatholigion sy'n derbyn gofal o fewn y sir. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau yn y categori hwn oni bai y cyflwynir tystysgrif Bedydd.
2. Plant sydd wedi eu bedyddio'n Gatholigion y mae eu rhieni yn blwyfolion eglwysi Dewi Sant a Phadrig Sant Hwlffordd, ac eglwys y Beichiogi Dihalog, Arberth. Ni roddir blaenoriaeth I geisiadau yn y categori hwn oni bai y cyflwynir tystysgrif Bedydd.
3. Plant sydd wedi eu bedyddio'n Gatholigion y mae eu rhieni yn blwyfolion plwyfi cyfagos i'r rhai a restrir uchod neu sydd wedi symud i'r ardal. Ni roddir blaenoriaeth i geisiadau yn y category hwn oni bai y cyflwynir tystysgrif Bedydd.
4. Plant sy'n Derbyn Gofal sydd yng ngofal Awdurdod lleol (plant mewn gofal) neu lle darperir llety iddynt (ee plant â rhieni maeth)
5. Plant y mae eu rhieni yn aelodau gweithgar a gweithredol o Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) ac yn byw yn yr ardaloedd y cyfeirir atynt yng nghategori 2. Ni roddir blaenoriaeth I geisiadau yn y categori hwn oni bai y cyflwynir llythyr ategol gan y gweinidog presennol yn cadarnhau Bedydd neu ddatganiad ategol o gysylltiad neu gyfeiriad wedi'i lofnodi gan y gweinidog neu gynrychiolydd yr eglwys yn cadarnhau aelodaeth o'r eglwys.
6. Plant sydd ag angen meddygol neu gymdeithasol. Bydd angen llythyr gan feddyg neu weithiwr proffesiynol iechyd yn rhoi tystiolaeth ategol i gyd-fynd â'r cais. Rhaid i'r dystiolaeth ategol hon nodi'r rhesymau penodol pam mai Ysgol Mary Immaculate yw'r ysgol fwyaf addas a'r anawsterau a achosir pe bai'n rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall. Ni roddir blaenoriaeth oni bai bod tystiolaeth ategol.
7. Plant nad ydynt wedi'u bedyddio sydd â brodyr neu chwiorydd yn yr ysgol.

Yn achos ymgeiswyr cyfartal a bod angen torri'r ddadl mewn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y llywodraethwyr yn derbyn yr ymgeiswyr hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol. Yn achos plentyn y mae ei rieni yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd, y rhiant sydd â'r cyfrifoldeb pennaf yn ystod yr wythnos ysgol ac y mae ei breswylfan yn agosach at yr ysgol fydd y ffactor penderfynu. Bydd y llywodraethwyr yn defnyddio'r llwybr cerdded byrraf a gyfrifir gan ddefnyddio data llwybrau unigol yr Arolwg Ordnans o ddrws ffrynt yr ysgol i ddrws ffrynt tŷ neu fflat yr ymgeisydd. Lle bydd angen, bydd y llywodraethwyr yn gofyn am gymorth gan yr awdurdod lleol i benderfynu pa un yw'r llwybr byrraf.

Mae gan rieni y mae eu cais am le i'w plant yn aflwyddiannus yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â'u derbyn. Dylai'r apêl hon fod yn ysgrifenedig a dylid ei hanfon at y Pennaeth. Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl annibynnol, a sefydlwyd gan Swyddfa'r Esgobaeth, y bydd ei benderfyniad yn rhwymol ar bob parti. Gweler yr Rhan o'r enw "Beth yw fy hawl i apelio"? i gael mwy o wybodaeth.

Mae Ysgol Gatholig Mair Ddihalog yn gweithredu rhestr aros ar gyfer rhieni pan na fydd yn gallu cynnig lle yn ystod y cylch derbyn arferol oherwydd gordanysgrifio. Mae'r telerau a gymhwysir I restrau aros yr un fath â thelerau'r Cyngor Sir, fel a ddisgrifir yn yr Rhan o'r enw "Sut y gallaf ychwanegu enw fy mhlentyn at y Rhestr Aros?"

Bydd ceisiadau am lefydd a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig, yn cael eu hystyried gan yr ysgol ar ôl yr holl geisiadau hynny a dderbyniwyd mewn pryd. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail y meini prawf gordanysgrifio uchod, a chan ystyried nifer y disgyblion presennol/darpar ddisgyblion. Mae'r hawl i apelio yn gymwys i geisiadau hwyr hefyd.

Mae'r fersiwn lawn o'r trefniadau derbyn ar gael gan yr ysgol.

Ysgol Gatholig Sant Francis, Aberdaugleddau

1. Mae St Francis yn Ysgol Gynradd Gatholig yn Esgobaeth Mynyw. Awdurdod Lleol Sir Benfro sy'n ei chynnal.

2. Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am benderfynu ynglŷn â'r polisi sy'n berthnasol i dderbyn disgyblion i'r ysgol. Mae wedi ei gyfarwyddo ar gyfer y cyfrifoldeb hwn gan:
   a) gofynion y gyfraith.
   b) cyngor Ymddiriedolwyr yr Esgobaeth ynglŷn â natur a diben ei gyfrifoldebau a chyflawni ei Weithred Ymddiriedolaeth ac Offeryn Llywodraethu.
   c) ei gyfrifoldeb tuag at yr ysgol a'r gymuned Gatholig y mae'n ei gwasanaethu.
   ch) cymeriad Catholig yr ysgol a'i Datganiad Cenhadaeth.

   Mae ethos yr ysgol hon yn Gatholig. Sefydlwyd yr ysgol gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant teuluoedd Catholig. Gofynnwn i bob rhiant sy'n gwneud cais am le yma gefnogi a pharchu'r ethos hwn, ei bwysigrwydd i gymuned yr ysgol a'r addysg y mae hi'n ei darparu. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni nad ydynt o'r un ffydd â'r ysgol hon i wneud cais a chael eu hystyried am le yma.

   Nifer Derbyn yr Ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym mis Medi 2018 yw 19. Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn, bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth I geisiadau yn unol â'r meini prawf sydd wedi eu rhestru ar yr amod y rhoddir gwybod i'r llywodraethwyr am y cais hwnnw cyn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau. Os bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o fewn dosbarthiad, bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol, wedi ei benderfynu yn ôl y pellter byrraf.

3. Mae'r ysgol yn gwasanaethu, yn y lle cyntaf, plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion, sy'n byw ym mhlwyf Sant Francis o Asisi yn Aberdaugleddau.

4. Mae'n rhaid gwneud ceisiadau am le yn yr ysgol ar-lein trwy ddefnyddio gwefan y Cyngor a hynny erbyn y 30 Ebrill 2018 fan bellaf.

5. Mae'r Corff Llywodraethol wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros benderfynu ynghylch derbyniadau i'w Bwyllgor Derbyniadau, a fydd yn ystyried pob cais yr un pryd ac wedi'r dyddiad cau ar gyfer derbyniadau, wedi'u gwneud yn unol â'r meini prawf sydd wedi eu rhestru dros y dudalen.

6. Bydd disgyblion a dderbynnir i'r ysgol yn mynd i'r Dosbarth Meithrin o mis Medi 2018 ymlaen a hynny yn y tymor wedi penblwydd y plentyn yn 3 oed.

7. Os bydd cais am dderbyn wedi ei wrthod gan y Corff Llywodraethol, gall rhieni wneud apêl I Banel Apeliadau Annibynnol. Mae'n rhaid anfon yr apêl hon yn ysgrifenedig at glerc y Llywodraethwyr yn yr ysgol o fewn 14 o ddyddiau (10 diwrnod gwaith) wedi'r gwrthodiad.

Meini Prawf Derbyn
Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethol yn gweithredu'r meini prawf 'mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael' canlynol yn nhrefn y flaenoriaeth:

1. Plant wedi'u bedyddio'n Gatholigion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol yn y plwyfi a wasanaethir gan yr ysgol.
2. Plant wedi'u bedyddio'n Gatholigion yn y plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu.
3. Plant eraill sydd wedi'u bedyddio'n Gatholigion.
4. Plant sy'n Derbyn Gofal sydd yng ngofal yr awdurdod lleol (plant mewn gofal) neu y mae'n darparu llety iddynt (e.e. plant gyda rhieni maeth).
5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol amser y derbyn.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill.
7. Plant o grefyddau eraill y mae eu rhieni yn dymuno addysg Gatholig
8. Plant nad ydynt yn Gatholigion y mae eu rhieni yn dymuno addysg Gatholig ar gyfer eu plentyn.
9. Plant y mae'r Cyngor Sir wedi gofyn yn benodol am le iddynt yn yr ysgol.

- Unrhyw amser y bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, o ran nifer y ceisiadau sydd wedi eu gwneud o dan unrhyw ddosbarthiad uchod, bydd y Pwyllgor Derbyniadau yn cynnig lleoedd yn gyntaf i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol yn ôl y daith gerdded fyrraf ar heolydd cyhoeddus. Bydd rhaid i bob ymgeisydd Cristnogol ddangos tystysgrif bedydd.

- Mae'n rhaid i rieni roi rhesymau dros apelio yn ysgrifenedig a bydd rhaid i'r Llywodraethwyr dderbyn penderfyniad y Panel Apeliadau.

- Os yw'r ysgol wedi ei henwi mewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, mae gan y Corff Llywodraethol ddyletswydd i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

- Fel y mae'r gyfraith yn mynnu, ni fydd y Corff Llywodraethol yn derbyn mwy na 30 o ddisgyblion i'r un dosbarth Derbyn neu Gyfnod Sylfaen.

Atodiad 5

Addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg yn ysgolion Cynradd Sir Benfro			
	Cwricwlwm	**Iaith yr Ysgol**	**Canlyniadau**
WM Cyfrwng Cymraeg	Cyfnod Sylfaen – trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfnod Allwedd 2 (CA2) – o leiaf 70% o'r addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion ac iaith gwaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith	Bydd disgyblion, beth bynnag yw iaith eu cartref, yn gallu mynd ymlaen i ddarpariaeth uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg ac erbyn diwedd CA2 byddant wedi cyrraedd yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion lle mae Saesneg yn brif gyfrwng
DS Dwy Ffrwd	Mae Cymraeg yn brif gyfrwng neu Saesneg yn brif gyfrwng yn bodoli gyda'i gilydd yn yr ysgolion hyn	Defnyddir Cymraeg a Saesneg yng ngwaith pob dydd yr ysgol. Penderfynir yr iaith gyfathrebu ar sail natur y ddarpariaeth gwricwlaidd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith	Bydd disgyblion, beth bynnag yw'r iaith gatre, yn gallu trosglwyddo I ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, ac erbyn diwedd CA2 byddant wedi cyrraedd yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion lle mae Saesneg yn brif gyfrwng
TR Ysgol Drosiannol	Cyfnod Sylfaen – meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. CA2 – defnyddir y ddwy iaith ond gyda mwy o bwyslais ar Gymraeg – 50%~70%	Cymraeg yw iaith gwaith pob dydd yr ysgol. Blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith	Efallai y bydd rhai disgyblion, yn enwedig o gartrefi Cymraeg eu hiaith, yn gallu mynd ymlaen i ddarpariaeth uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob disgybl wedi cyrraedd yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion lle mae Saesneg yn brif gyfrwng
EW Cyfrwng Saesneg Gyda Defnydd Sylweddol o Gymraeg	Cyfnod Sylfaen – mae disgyblion yn cael profiad o'r meysydd dysgu yn y ddwy iaith ond gyda mwy o bwyslais ar Saesneg. CA2 – addysgu yn y ddwy iaith ond gyda mwy o bwyslais ar Saesneg. Cymraeg yn gyfrwng addysgu neu ddysgu – rhwng 20% a 50% o'r cwricwlwm cynradd yn gyffredinol	Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol gan gynnwys ieithyddol yr ysgol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Blaenoriaeth fawr i greu ethos cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith	Disgwylir fel arfer y bydd disgyblion yn mynd ymlaen i ddarpariaeth uwchradd trwy gyfrwng saesneg, ond y bydd eu sgiliau'n well yn y Gymraeg yn ail iaith. Rhai dysgyblion yn gallu dilyn nefer gyfyngedig o bynciau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg
EM Ysgol Cyfrwng Saesneg	Cyfnod Sylfaen – mae pob disgybl yn cael profiad o'r meysydd dysgu trwy gyfrwng Saesneg. CA2 – Addysgir y Gymraeg yn ail iaith. Mae llai nag 20% o'r addysgu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg	Saesneg yw iaith gwaith pob dydd yr ysgol – rhywfaint o gyfathrebu yn Gymraeg gyda disgyblion er mwyn gwella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg pob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni un ai yn Saesneg neu yn y ddwy iaith	Disgwylir fel arfer y bydd disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd trwy gyfrwng Saesneg ac y byddant yn parhai i ddysgu yn bennaf trwy gyfrwng Saesneg, ac yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith

Cynod Sylfaen: 3-17 oed
Cyfnod Allweddol 2: 7-11 oed

Addysgu Cymraeg a Saesneg mewn Ysgolion Uwchradd Sir Benfro			
	Cwricwlwm	**Laith yr Ysgol**	**Canlyniadau**
WM Cyfwng Cymraeg	Addysgir pob pwnc heblaw Saesneg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i bob disgybl. Gall rhai ysgolion gyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau	Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol. Maer'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith	Bydd yr asesu yn Cyfnod Allweddol 3 (CA3) CA3 ac Cyfnod Allweddol 4 (CA4) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ym mhob pwn heblaw Saesneg neu ieithoedd eraill. Bydd disgyblion yn gallu mynd ymlaen i ddarpariaeth ôl – 16 Cyfrwng Cymraeg
Dwyiethog AB BB CB CH	**Mae 4 o is-raniadau i'r categori hwn yn ôl y pynciau a addysgir trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac a oes darpariaeth gyfochrog yn Saesneg** **2A** Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn unig i bob disgybl. Addysgir un neu ddau o bynciau i rai disgyblion yn Saesneg neu'r ddwy iaith **2B** Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ond addysgir hwy hefyd trwy gyfrwng Saesneg **2C** Addysgir 50-79% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ond addysgir hwy hefyd trwy gyfrwng Saesneg. **2CH** Addysgir pob pwnc (belaw saesneg a Chymraeg) i bob disgybl yn y ddwy iaith	Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol trwy ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith	Ar gyfer disgyblion yn 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer fwyaf o gyrsiau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, byddai'r asesu yn CA3 ac CA4 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ac y byddent yn gallu symud ymlaen i ddarparieaeth ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn pynciau a ddewisir. Ar gyfer disgyblion yn 2CH byddai'r aesu yn CA3 ac CA4 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ym mhob pwnc heblaw Saesneg ac y byddent yn gallu symud ymlaen I ddarpariaeth ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn pynciau a ddewisir.
EW Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg	Addysgir yn y ddwy iaith gan addysgu 20-49% o'r pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai pob pwnc yn cael ei ddysgu fel arfer hyfed trwy gyfrwng Saesneg	Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol trwy ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni un ai yn y ddwy iaith neu yn saesneg	Gellid asesu disgyblion sy'n cymryd dewisiadau cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel a byddent yn gallu symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny
EM Ysgol cyfrwng Saesneg	Addysgir disgyblion yn bennaf trwy gyfrwng Saesneg. Gellid addysgu Cymraeg a addysgir yn ail iaith hyd at CA4 (gallai gynnwys Cymraeg yn iaith gyntaf) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu drwy ddefnyddio'r ddwy iaith	Saesneg yw iaith bob dydd yr ysgol, ond mae rhywfaint o gyfathrebu yn Gymraeg gyda'r disgyblion, gyda'r nod o wella eu gallu I ddefnyddio Cymraeg pob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni un ai yn y ddwy iaith neu yn Saesneg	Gellid asesu unrhyw ddisgyblion sy'n cymryd dewisiadau cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel a byddent yn gallu symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu yn Sesneg ac yn symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng Saesneg

Cyfnod Allweddol 3: 11-14 oed
Cyfnod Allweddol 4: 14-16 oed